

## **Arolygiad Ysbyty (Dirybudd)**

Ysbyty Cymunedol Tregaron /  
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel  
Dda

Dyddiad arolygiad: 7 ac 8 Medi  
2021

Dyddiad cyhoeddi: 10 Rhagfyr  
2021

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu**  
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**  
**Llywodraeth Cymru**  
**Parc Busnes Rhyd-y-car**  
**Merthyr Tudful**  
**CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn: 0300 062 8163**  
**E-bost: [hiw@gov.wales](mailto:hiw@gov.wales)**  
**Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)**

## Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom .....	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad .....	6
3.	Yr hyn a ganfuom.....	8
	Ansawdd profiad y claf .....	10
	Cyflawni gofal diogel ac effeithiol .....	20
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	35
4.	Beth nesaf?.....	433
5.	Sut rydym yn arolygu ysbytai? .....	44
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad.....	45
	Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith .....	46
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	47

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

## Ein gwerthoedd

Mae cleifion wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

## Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn a welwn i ddylanwadu ar bolisiau, safonau ac arferion

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o Ysbyty Cymunedol Tregaron ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar 7 ac 8 Medi 2021. Dim ond un ward oedd ar y safle hwn.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau Arolygydd AGIC, un adolygydd cymheiriaid clinigol ac un adolygydd profiad claf. Arweiniwyd yr arolygiad gan reolwr arolygu AGIC.

Edrychodd AGIC ar y ffordd yr oedd y gwasanaeth yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Ceir manylion pellach am sut rydym yn cynnal arolygiadau o ysbytai yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod y gwasanaeth yn darparu gofal parchus ac urddasol i gleifion ar y ward.

Roedd trefniadau effeithlon ac effeithiol ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaethau a chwblhawyd gwiriadau gorfodol ar offer dadebru.

Fodd bynnag, canfuom rywfaint o dystiolaeth nad oedd y bwrdd iechyd yn cydymffurfio'n llwyr â phob Safon Iechyd a Gofal ym mhob maes.

Hefyd, mae angen mynd i'r afael â phryderon y staff hynny a oedd wedi profi gwahaniaethu.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd adborth gan gleifion ynghylch y gwasanaethau roeddent wedi'u derbyn yn gadarnhaol ar y cyfan
- Gwelsom rymweithio da rhwng y staff a'r cleifion, gyda'r staff yn cefnogi'r cleifion mewn modd urddasol a pharchus
- Roedd staff yn darparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion
- Roedd meddyginiaethau yn cael eu rheoli'n dda ac roedd gwiriadau gorfodol ar offer dadebru
- Roedd staff yn gadarnhaol ar y cyfan yn eu hadborth am eu rheolwyr uniongyrchol ac uwch reolwyr
- Dywedodd staff hefyd eu bod yn ymwybodol o'r strwythur uwch reolwyr o fewn y sefydliad a bod cyfathrebu rhwng yr uwch reolwyr a staff yn effeithiol ar y cyfan.

Rydym yn argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylai'r drysau i'r llifddor gael eu cloi i atal mynediad heb awdurdod i'r storfa gemegau yno

- Gwnaethom nodi y gellid gwella diogelwch ar y ward trwy ddarparu mynediad diogel ac allanfa i'r ward
- Mae dogfennaeth cleifion wedi'i chwblhau'n llawn gan gynnwys dogfennau trosglwyddo gofal a chynllunio i ryddhau
- Hyfforddiant gorfodol a chydymffurfiad ag arfarniadau
- Amlygwyd pryderon mewn perthynas ag achosion o staff yn teimlo y gallai fod gwahaniaethu yn y gweithle.

### 3. Yr hyn a ganfuom

#### Cefndir y gwasanaeth

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn darparu gwasanaethau gofal iechyd i boblogaeth o tua 387,000 ar draws Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro. Mae'n darparu gwasanaethau Acíwt, Sylfaenol, Cymunedol, Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu trwy Ysbytai Cyffredinol a Chymunedol, Canolfannau Iechyd, Meddygon Teulu, Deintyddion, Fferyllwyr ac Optometryddion a safleoedd eraill.

Mae Ysbyty Cymunedol Tregaron y tu allan i dref Tregaron yn sir Ceredigion. Mae'n ysbyty 20 gwely gydag un ward sy'n arbenigo mewn adsefydlu'r henoed a gofal lliniarol. Mae'r ward wedi'i rhannu'n dri bae o bedwar gwely, un bae o dri gwely a phum ystafell sengl. Roedd 18 o gleifion ar y ward ar adeg yr arolygiad. Dywedwyd wrthym fod yr ysbyty yn ysbyty 10 gwely cyn COVID-19 ond bod swyddfeydd a lle wedi'u defnyddio i newid yr ysbyty i fod yn uned 20 gwely.

Mae prosiect ar waith i greu datblygiad tai gofal ychwanegol ynghyd â model gwledig arloesol o ofal yn y gymuned, i ddiwallu anghenion gofal, iechyd a thai lleol. Bwriad datblygiad newydd Canolfan Adnoddau Integredig Cylch Caron yw disodli Ysbyty Cymunedol Tregaron, Canolfan Adnoddau Bryntirion a'r feddygfa.

Mae'r cynllun yn cael ei ddatblygu mewn partneriaeth rhwng Cyngor Sir Ceredigion, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Tai Canolbarth Cymru a Llywodraeth Cymru. Darperir gwasanaethau meddygol gan Feddygon Teulu o bractis lleol.

Cefnogir y ddwy ward yn dda gan dîm amlddisgyblaethol a oedd yn cynnwys ffisiotherapi, therapi galwedigaethol a gweithwyr cymdeithasol.

Fe'n hysbyswyd gan y nyrs arweiniol glinigol, yr oedd ei chyfrifoldebau'n cynnwys Ysbyty Tregaron, mewn ymateb i ganllawiau'r pandemig, bod cadw pellter cymdeithasol wedi arwainat ailgyflenwi cynhwysfawr o bob ardal ar draws y safle. Roedd hyn yn cynnwys swyddfeydd staff cymunedol, ystafell fwyta i staff ac ardaloedd newid, adran cleifion allanol, ystafell ffisiotherapi, ystafell podiatreg yn ogystal â'r ardal i gleifion mewnol. At hynny, nodwyd Ysbyty Cymunedol Tregaron yn ystod haf 2020 fel ardal lle gellid comisiynu gwelyau ychwanegol i gynnal safleoedd aciwt. Roedd hyn er mwyn cefnogi'r safleoedd a oedd wedi colli gwelyau ar gyfer gwaith arferol oherwydd rheoli llif cleifion positif COVID-19 a chynnal llwybrau dewisol i gleifion wrth sicrhau cadw pellter cymdeithasol rhwng ardaloedd gwelyau. Dechreuodd y gwaith yn yr hydref, a thros y flwyddyn ddiwethaf mae ardal y ward wedi cael ei hadnewyddu'n gynhwysfawr. Roedd hyn yn cynnwys system cloch newydd, system larwm tân, system goleuadau



argyfwng, mwydwyd a chyfleusterau storio meddyginiaethau, yn ogystal â'r rhan fwyaf o'r ystafelloedd eraill yn yr ysbyty. Yn ogystal â hyn, cafodd y cyswllt Wi-Fi ei wella, a chafodd dwy swyddfa gymunedol eu troi yn ardaloedd gwelyau i gleifion mewnol. Roedd y gwelyau ychwanegol yn cael eu defnyddio erbyn mis Tachwedd 2020, a chafodd y staff eu recriwtio o'r Gronfa Gymunedol COVID-19 i'r bwrdd iechyd, yn ogystal â staff eraill yn cael eu hadleoli.

## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Roedd adborth gan gleifion ynghylch y gwasanaethau roeddent wedi'u derbyn yn gadarnhaol ar y cyfan. Dywedodd y cleifion y buom yn siarad â hwy yn ystod yr arolygiad eu bod yn fodlon ar y gofal a'r driniaeth a dderbyniwyd.

Dywedodd y cleifion wrthym fod y staff yn garedig ac yn ofalgar. Gwelsom ryngweithio da rhwng y staff a'r cleifion, gyda'r staff yn cefnogi'r cleifion mewn modd urddasol a pharchus.

Roedd angen rhai gwelliannau.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael eu safbwyntiau am y gwasanaethau a ddarperir. Cwblhawyd saith holiadur, ac ni atebodd pob ymatebydd yr holl gwestiynau. Buom yn siarad â phedwar claf yn ystod yr arolygiad hefyd.

## Ansawdd profiad y claf

Gofynnwyd i gleifion yn yr holiadur raddio eu profiad cyffredinol o'r gwasanaeth. Roedd pob un o'r saith o'r farn bod y gwasanaeth yn dda iawn. Yng ngeiriau'r cleifion:

*"Gwasanaeth da iawn ym Mronglais, Tregaron a chan y pharafeddygon. Diolch i bawb. Mae'r holl staff yn gweithio gormod, oriau hir iawn pawb ac yn gweithio'n galed iawn trwy'r dydd "*

*"Cyfeillgar a charedig iawn".*

Gofynnwyd i gleifion yn yr holiaduron sut y gallai'r lleoliad wella'r gwasanaeth y mae'n ei ddarparu. Dangosir rhai sylwadau a dderbyniwyd isod:

*"Rhaid i bob claf ddefnyddio'r un toiled. Mae'r rhan fwyaf o gleifion yn cael trafferth gyda'r bledren a'r coluddyn. Ar ôl i'r staff domestig fynd, gall y toiledau fod yn fudr."*

*"Angen mwy o staff"*

*“Mwy o breifatrwydd i drafod materion”*

*“Dim ond wedi gweld meddyg ddwywaith ers bod yma, ond mae'r nyrsys yma a gallaf ddweud wrthyn nhw am fy mhroblem feddygol”.*

Gallai hyn, ynghyd â symudiad cyffredinol staff trwy'r ward achosi perygl i gleifion, yr oedd gan y mwyafrif ohonynt broblemau symudedd. Dywedwyd wrthym fod y gwasanaeth tân wedi bod i'r lleoliad yn ddiweddar a bod cynllun ar waith pe byddai tân.

Gwnaethom sylwi ar staff yn cadw pellter cymdeithasol, lle bo hynny'n bosibl, ac roeddent yn gwisgo masgiau wyneb, cyfarpar diogelu personol priodol ac fe'u gwelwyd yn defnyddio diheintydd dwylo ag alcohol.

## **Cadw'n iach**

Roedd canllawiau golchi dwylo wedi'u harddangos yn glir wrth y sinciau yn y ward. Roedd arwydd dim ysmegu wrth fynedfa'r ward ac arwyddion y tu allan yn dweud bod hwn yn safle dim ysmegu. Er nad oedd cyngor ar roi'r gorau i ysmegu yn cael ei arddangos, dywedwyd wrthym y byddai unrhyw gleifion a dderbynnir, a oedd yn ysmegu, yn cael siarad â staff uwch ac yn cael eu hatgyfeirio atynt, a rhagnodwyd clytiau gwrth-ysmygu.

Dywedwyd wrthym fod gwybodaeth, fel taflenni, a fyddai fel arfer yn cael eu harddangos am sut y gallai cleifion wella eu hiechyd a'u llesiant wedi cael eu tynnu oddi ar waliau'r ward. Roedd hyn oherwydd pryderon rheoli haint COVID-19. Gwelsom fod taflenni enghreifftiol yn y swyddfa weinyddu yn ymwneud â gwasanaethau a grwpiau cymorth lleol.

Roedd y ward yn hybu amseroedd prydau gwarchoddedig. Roedd hyn yn sicrhau nad oedd unrhyw un yn tarfu ar y cleifion yn ormodol yn ystod amser bwyd er mwyn sicrhau eu bod yn bwyta ac yn yfed digon. Gwelsom brydau amser cinio'n cael eu gweini a gwelsom y staff yn cynorthwyo cleifion mewn modd digynnwrf, hamddenol ac urddasol gan roi digon o amser i gleifion gnoi a llyncu eu bwyd. Gwelsom staff hefyd yn rhoi anogaeth a chymorth i gleifion fwyta'n annibynnol. Cytunodd y saith claf a ymatebodd fod staff yn darparu gofal pan oedd ei angen arnynt ac roeddent yn eu helpu i fwyta, os oedd angen cymorth arnynt. Cytunodd y rhai a ymatebodd hefyd fod ganddynt amser i fwyta ar eu cyflymder eu hunain a bod staff yn eu helpu i yfed os oedd angen cymorth arnynt, ac roedd ganddynt fynediad at ddŵr ar y ward.

Gwelsom ryngweithio da rhwng y staff a'r cleifion gyda'r staff yn rhoi sylw i anghenion cleifion mewn modd synhwyrol a phroffesiynol. Gwelsom y staff yn treulio amser gyda'r cleifion ac yn eu hannog a'u cefnogi i wneud pethau drostynt eu hunain er mwyn cynnal eu hannibyniaeth.

Nododd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn cael eu hannog i gymryd rhan yn eu gofal eu hunain i gynorthwyo a chynnal eu hannibyniaeth. Roedd hyn yn cynnwys golchi a gwisgo eu hunain cyn belled ag yr oeddent yn gallu, glanhau eu dannedd eu hunain a golchi eu dwylo.

## **Gofal ag urddas**

Dywedodd cleifion a ymatebodd i'r holiaduron, a'r rhai y siaradwyd â hwy yn ystod yr ymweliadau arolygu, bod staff bob amser yn gwrtais ac yn gwrando arnynt hwy ac ar eu ffrindiau a'u teulu. Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur wrthym fod y staff yn eu hannerch gyda'r enw yr oeddent yn ei ffafrio.

Gwelsom fod cleifion yn cael eu trin ag urddas, parch a thrugaredd gan dîm y staff ar y ward. Gwelsom y staff yn bod yn garedig ac yn barchus tuag at y cleifion. Gwnaed ymdrechion i amddiffyn preifatrwydd ac urddas cleifion wrth ddarparu cymorth gydag anghenion gofal personol mewn modd synhwyrol. Cadarnhaodd y cleifion bod y staff yn garedig ac yn sensitif wrth ddarparu gofal. Roedd yn ymddangos bod y cleifion yn derbyn gofal da ac roedd y staff yn rhoi sylw arbennig i ymddangosiad a dillad claf.

Roedd sylwadau cleifion yn yr holiadur yn gadarnhaol iawn am y staff a'r ward ar y cyfan. Dywedodd pob claf a fynegodd farn eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch gan staff yr ysbyty. Cytunodd yr holl ymatebwyr fod staff bob amser yn gwrtais tuag atynt a'u bod yn gwrando arnynt ac ar eu ffrindiau a'u teulu.

Cytunodd yr holl gleifion a fynegodd farn fod staff wedi siarad â nhw am eu cyflyrau meddygol a'u helpu i ddeall. Cytunodd y mwyafrif hefyd fod staff yn garedig ac yn sensitif wrth gynnal gofal a thriniaeth. Nododd cleifion eu bod yn hapus â'u gofal. Nododd un claf, er ei fod yn hapus gyda'r gofal, nad oedd yn deall beth oedd yn digwydd na beth oedd yn bod arno.

Dywedodd pum claf a fynegodd eu barn wrth lenwi'r holiadur eu bod yn teimlo eu bod wedi cymryd cymaint o ran ag yr oeddent yn dymuno mewn unrhyw benderfyniadau ynglŷn â'u triniaeth. Unwaith eto, dywedodd pum claf a fynegodd farn eu bod nhw a'u perthnasau bob amser, neu fel arfer, yn cymryd rhan mewn penderfyniadau am eu gofal.

Yn ogystal â hyn, cytunodd yr holl ymatebwyr a fynegodd farn, pan oedd angen iddynt fynd i'r toiled, bod staff yn rhoi dewis iddynt ynghylch y dull a ddefnyddiwyd ganddynt. Rhoddwyd y cymorth hwn iddynt mewn ffordd sensitif, fel nad ydynt yn teimlo cywilydd. Roedd y staff a welsom yn ofalus wrth weinyddu gofal personol. Defnyddiwyd llenni o amgylch gwelyau a chaewyd drysau, lle bo hynny'n bosibl, wrth weinyddu gofal i gleifion. Gwelwyd staff yn mynd â chleifion i'r toiledau lle bo hynny'n bosibl a phan nad oedd hynny'n bosibl, defnyddiwyd cymhorthion

gyda'r cleifion. Roedd pob toiled wedi'i farcio'n glir; nid oeddent wedi'u dynodi ar sail rhyw, ond roedd pob clo yn gweithio'n iawn.

Roedd cyfleusterau toiled a chawod cyfyngedig ar y ward, gydag un ystafell ymolchi hefyd yn cael ei defnyddio fel storfa. Dywedwyd wrthym fod cynlluniau ar waith i greu mwy o gyfleusterau. Fodd bynnag, gallai'r cyfleusterau cyfyngedig effeithio ar urddas a pharch cleifion. Gwnaethom nodi o wiriad o gofnodion cleifion bod eu hanghenion ymataliaeth wedi'u hasesu. Nid oeddem yn gallu darganfod a oedd y claf yn cael cynnig cyfle i olchi dwylo ar ôl y digwyddiadau hyn. Nid oedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gwbl hyderus bod hyn bob amser yn digwydd.

O ran y gallu i siarad â staff am eu triniaeth heb gael eu clywed gan bobl eraill, dywedodd dau glaf y gallent gael eu clywed gan eraill. Fodd bynnag, dywedodd pob un o'r saith claf a ymatebodd fod eu preifatrwydd a'u hurddas bob amser, neu fel arfer, yn cael eu cynnal a dywedasant fod eu hannibyniaeth bob amser neu fel arfer yn cael ei hyrwyddo. Yn ogystal â hyn, ni wnaethom nodi unrhyw dystiolaeth bod sgysiau amhriodol yn digwydd mewn manau cyhoeddus.

Roedd staff yn ymddangos yn gyfeillgar ac yn hawdd mynd atynt. Roedd staff yn galw cleifion gan ddefnyddio eu henwau. Ni chyflwynwyd unrhyw gyflwyniadau, ond roedd hyn oherwydd bod staff yn adnabod cleifion.

Gwelsom un claf a oedd yn gallu symud yn cerdded yn y coridor, a gofynnodd aelod o staff i ble yr oedd yn mynd gan ddweud wrthynt yn barchus i beidio â mynd ymhellach na phwynt penodol. Fodd bynnag, ni wnaethom arsylwi ar yr aelod staff yn gwirio hyn, ond roedd y claf hwn wedi bod yn glaf mewnol ers cryn amser.

Roedd yr holl staff yn arddangos disgrisiwn a sensitifrwydd wrth siarad am gleifion.

Roedd pob claf yn ymddangos fel petaent yn derbyn gofal da a'u bod yn hapus, roedd cleifion yn gallu gwisgo eu dillad eu hunain ac roedd cleifion â gwely yn ymddangos yn lân, mewn gynau glân.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:

- Yn ogystal â chael cynnig cadachau i lanhau dwylo, rhaid i staff sicrhau bod cleifion yn glanhau eu dwylo cyn eu prydau bwyd ac ar ôl bwyta, ac ar ôl defnyddio'r toiledau

- Mae preifatrwydd cleifion yn cael ei gynnal trwy siarad â'r cleifion eu hunain am eu cyflwr, neu faterion preifat, pan na allant gael eu clywed gan gleifion neu ofalwyr eraill.

## Gwybodaeth i gleifion

Roedd arwyddion a chyfarwyddiadau clir i'r ward ac oddi yno. Roedd arwydd amlwg i'r ward a'r allanfa. Roedd yr ysbyty yn amgylchedd dwyieithog gydag arwyddion a phosteri wedi'u harddangos yn Gymraeg a Saesneg. Roedd gan staff hefyd fathodynau wedi'u brodio ar eu gwisgoedd yn dangos eu bod yn siaradwyr Cymraeg.

Roedd gwybodaeth gyfyngedig yn cael ei harddangos ar gyfer cleifion a gofalwyr i'w helpu i ddeall eu gofal. Hefyd nid oedd gwybodaeth yn cael ei harddangos ar hyn o bryd mewn perthynas â sepsis<sup>1</sup>, oni bai bod y claf wedi dioddef y digwyddiad hwn.

Roedd gwybodaeth gyfyngedig hefyd yn cael ei harddangos am y staff a oedd yn gweithio ar y ward. Roedd bwrdd wrth fynedfa'r ward gydag enwau'r staff sydd ar ddyletswydd yn ystod y dydd a'r nos. Nid oedd unrhyw luniau o staff y gellir eu hadnabod yn rhwydd. Roedd pob aelod o staff yn gwisgo bathodynau gyda'u henwau a'u rolau. Dylai'r bwrdd iechyd ystyried gosod bwrdd pwy yw pwy ar y ward fel y gall cleifion, cydberthnasau a gofalwyr adnabod staff.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:

- Gwneir ymdrechion pellach i arddangos yr holl wybodaeth a oedd ar gael i gleifion a gofalwyr cyn COVID-19
- Gosod bwrdd pwy yw pwy ar y ward.

---

<sup>1</sup>Sepsis yw ymateb y corff i haint, sy'n peryglu bywyd. Mae'n digwydd pan fydd eich system imiwnedd yn gorymateb i haint ac yn dechrau niweidio meinweoedd ac organau eich corff eich hun.

## Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd pob claf a fynegodd farn eu bod yn gallu cyfathrebu â staff yn eu iaith ddewisol a bod gwybodaeth gofal iechyd ar gael yn eu hiaith ddewisol.

Roedd yr holl gleifion y gwnaethom siarad â nhw yn canmol yr holl staff a dywedon nhw bod y staff yn gwneud iddynt deimlo'n gartrefol. Dywedon nhw fod staff yn gwrandao ar gleifion pan oeddent yn bryderus ac yn cymryd amser i egluro iddynt am eu gofal a'r rhesymau dros eu triniaeth.

Pan ymwelodd y meddyg teulu lleol, cynhaliwyd eu trafodaethau â nyrsys am y cleifion mewn swyddfa ac nid yn agos at gleifion. Cynhaliwyd cyfarfodydd tîm amlddisgyblaeth ar-lein, gyda mynychwyr mewn swyddfeydd caeedig.

Er mwyn cynorthwyo cleifion ag anawsterau gyda'u clyw, eu golwg ac i ddarllen Saesneg, gwnaethom nodi bod gan y ward glocioau mawr yn ardaloedd y ward. Roedd hefyd rai byrddau ac arwyddion darluniadol, ac roedd chwyddwydrau mawr ar gael.

## Gofal amserol

Dywedodd staff pan fyddai'r ward yn brysur y byddai adegau pan fyddai'n rhaid i gleifion aros am gymorth gan staff i fynd i'r afael â'u hanghenion. Cytunodd yr holl gleifion a ymatebodd i'r holiadur eu bod bob amser yn gallu cael gafael ar gloch alw i wneud staff yn ymwybodol eu bod angen eu sylw. Cytunodd chwech o'r saith claf a lenwodd yr holiadur bod staff yn dod atynt pan wnaethant ddefnyddio'r gloch alw. Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod y ward yn brysur, ond roedd yn teimlo'n ddigynnwrf. Gwnaethom hefyd nodi bod staff yn ymateb cyn gynted ag y gallent i unrhyw gleifion a oedd wedi defnyddio'r gloch alw i ofyn am sylw.

## Gofal unigol

### Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Ni welsom unrhyw fentrau fel 'This is Me'<sup>2</sup> neu'r cynllun glöyn byw<sup>3</sup> ar waith. Hefyd, nid oedd staff yn gallu dangos unrhyw dystiolaeth o'r defnydd o'r mentrau hyn.

Er bod arwyddion ar waith ar ddrysau toiled i helpu cleifion â phroblemau synhwyraidd neu anawsterau gwybyddol, nid oeddent mor glir ag y gallent fod, oherwydd newidiadau yn ymwneud â COVID-19. Anogwyd cleifion i fod yn fwy heini, a rhoddwyd offer iddynt i'w helpu i gerdded a symud. Gwelwyd staff yn annog annibyniaeth lle bo hynny'n bosibl.

Roedd therapyddion galwedigaethol cymunedol a thechnegydd ffisiotherapi ar y ward, a gwelwyd eu bod yn gweithio gyda chleifion. Dywedodd y therapyddion galwedigaethol y gallent gyflenwi unrhyw offer angenrheidiol yn dilyn asesiadau.

O'n gwiriad o sampl o bum cofnod cleifion, gwnaethom nodi bod yr holl ofal a roddwyd wedi'i gofnodi yng nghynllun a chofnodion gofal cleifion. Roedd gan y mwyafrif o gleifion 'na cheisier dadebru cardio-anadlol (DNACPR)<sup>4</sup> ar waith, ond nid oedd yn glir a oedd yr holl faterion diwedd oes yn cael eu trafod fel mater o drefn. Nid oedd yn ymddangos bod system glir ar waith ynghylch pwy sydd angen mynd i'r afael â'r materion hyn, sy'n golygu y gall fod oedi wrth ddelio â chleifion sydd wedi marw. Roedd cynlluniau gofal yn seiliedig ar anghenion cleifion unigol, ond roeddent yn bennaf ar ffurf blychau ticio ar ffurflenni generig. Er i ni nodi rhywfaint o dystiolaeth o drosglwyddo gofal a chynllunio i ryddhau, gwnaethom

---

<sup>2</sup>Mae'r system 'This is Me' ar gyfer cleifion â dementia a lle cafodd claf anhawster gyda'i iaith neu ei leferydd. Nod y fenter hon oedd helpu staff i gael gwell dealltwriaeth o bob claf ar y ward, a allai helpu i ddarparu gofal wedi'i deilwra yn seiliedig ar anghenion a dewisiadau unigolion.

<sup>3</sup> Nod cynllun Glöyn Byw yw gwella diogelwch a lles cleifion drwy addysgu staff i gynnig ymateb cadarnhaol a phriodol i bobl sydd â nam ar eu cof ac mae'n caniatáu i gleifion sydd â dementia, dryswch neu anghofusrwydd ofyn am yr ymateb hwnnw drwy gyfrwng symbol glöyn byw cynnil ar eu nodiadau.

<sup>4</sup>Mae 'na cheisier dadebru cardio-anadlol' yn golygu os yw'ch calon neu'ch anadl yn stopio, ni fydd eich tîm gofal iechyd yn ceisio ei ailgychwyn.



nodi nad oedd hyn wedi'i gofnodi ar nodiadau'r cleifion ar gyfer un claf diwedd oes. Gwnaethom nodi, lle bo hynny'n berthnasol, bod y gofal wedi'i gynllunio mewn ffordd a oedd yn hyrwyddo annibyniaeth.

Roedd yr ystafell ddydd ar gau i gleifion oherwydd problemau gyda lledaenu'r haint COVID-19 ac fe'i defnyddiwyd ar gyfer storio offer a chadeiriau. Fe'i defnyddiwyd hefyd fel ardal i weini bwyd. Er bod yr ystafell yn addas ar hyn o bryd, roedd gofod yn brin ac roedd rhai ystafelloedd yn ymddangos yn gyfyng. Wedi dweud hynny, roedd pob claf yn ymddangos yn hapus, gan chwerthin a siarad â staff ac ymysg ei gilydd.

Disgrifiodd y staff y gwnaethom siarad â nhw yr hyn a oedd ar waith cyn COVID-19 i gadw'r cleifion yn brysur ac i wneud y ward mor groesawgar â phosibl. Fodd bynnag, ers COVID-19 a'r risg o ledaenu'r haint, ataliwyd y gweithgareddau hyn, gan gynnwys defnyddio'r ystafell ddydd. Roedd iPads ar y ward i gleifion eu defnyddio i gadw mewn cysylltiad â'u teuluoedd a'u ffrindiau. Fodd bynnag, roedd problem bosibl gyda'r signal ac efallai na fyddai perthnasau hŷn yn gallu defnyddio'r dechnoleg i dderbyn yr alwad. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw y byddai clustffonau di-wifr yn fuddiol i gleifion, gan y gallai sŵn fod yn straen.

Fe'n hysbyswyd gan uwch reolwyr fod gan yr ysbyty stoc o lyfrau lliwio a beiros, pensiliau a llyfrau darllen. Yn ogystal â hyn, roedd llyfrau cof, jig-so a chardiau, pob un at ddefnydd unigol cleifion. Rhoddwyd ac ariannwyd y rhain trwy gronfeydd elusennol mewn ymateb i ofynion rheoli haint y pandemig.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod dogfennaeth cleifion wedi'i chwblhau'n llawn gan gynnwys trosglwyddo gofal a chynllunio i ryddhau.

Rhaid i'r bwrdd iechyd ymchwilio i ffyrdd o ganiatáu i gleifion aildefnyddio'r ystafell ddydd ar gyfer amrywiol weithgareddau i'w hysgogi tra byddant yn yr ysbyty.

## Hawliau pobl

Dywedodd yr holl gleifion a fynegodd farn yn yr holiadur eu bod yn teimlo y gallent gael gafael ar y gofal iechyd cywir ar yr adeg iawn waeth beth fo unrhyw nodweddion gwarchoddedig<sup>5</sup>. Fodd bynnag, dywedodd un claf ei fod wedi wynebu gwahaniaethu wrth gyrchu neu ddefnyddio'r gwasanaeth iechyd hwn. Rhestrir gwelliant yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

Roedd rôl newydd wedi'i chreu, o'r enw rôl swyddog cyswllt â theuluoedd, a oedd yn rhan o'r tîm profiad cleifion. Roedd hyn er mwyn cefnogi cleifion yn absenoldeb trefniadau ymweld arferol, megis cynorthwyo cleifion i gadw mewn cysylltiad â'u theuluoedd. Roedd yr unigolyn yn y swydd hon wedi lleihau eu horiau i 0.4 cyfwerth ag amser llawn yn ddiweddar. Roedd y bwrdd iechyd yn hysbysebu'r oriau sy'n weddill. Fodd bynnag, roedd cleifion yn gallu siarad â theulu a ffrindiau gan ddefnyddio ffôn ar y ward, neu trwy ffonau symudol neu offer ar-lein. Roedd cleifion â ffonau symudol angen cymorth i'w defnyddio mewn llawer o achosion, ac weithiau roedd rhaid iddynt aros i staff eu helpu. Nid oedd gan y cleifion y gwnaethom siarad â nhw unrhyw gwynion, ond nid oeddent hefyd yn gwybod sut i wneud cwyn, os oedd angen. Wedi dweud hynny, gwnaethom sylwi ar boster Gweithio i Wella<sup>6</sup> wedi'i arddangos wrth fynedfa'r ward. Ni wnaethom sylwi ar unrhyw daflenni Gweithio i Wella ar y ward i ymwelwyr neu gleifion eu defnyddio, ond dywedwyd wrthym fod taflenni wedi'u tynnu o'r ward oherwydd y problemau rheoli haint COVID-19.

## Gwranddo a dysgu o adborth

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gallu disgrifio'r broses ar gyfer rheoli cwynion. Fe'n hysbyswyd gan staff fod nifer y cwynion a dderbyniwyd am y gwasanaeth ar y ward yn isel. Mae'r Swyddog Cyswllt â Theuluoedd yn cofnodi adborth cleifion yn rheolaidd ar gyfer y Tîm Profiad Cleifion. Yn ogystal â hyn, ers Ebrill 2021 cofnodwyd yr holl gardiau, rhoddion a mynegiadau o werthfawrogiad

---

<sup>5</sup>Mae gan bawb yr hawl i warchod eu hunain rhag rhagfarnau amrywiol. Yn ôl Deddf Cydraddoldeb 2010, mae nodweddion gwarchoddedig yn agweddau ar hunaniaeth unigolyn sy'n eu gwneud nhw pwy ydyn nhw. Y naw nodwedd gwarchoddedig yw; oedran; anabled; ailbennu rhywedd; priodas a phartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol.

<sup>6</sup> Mae Gweithio i Wella yn broses ar gyfer trin Cwynion, Honiadau a Digwyddiadau sy'n cael eu galw gyda'i gilydd yn "Bryderon".

ar daenlen ar y gyriant a rennir y gallai staff ei gyrchu. Dylai gwasanaethau gofal iechyd fod yn sylwgar o anghenion cleifion ac ymwelwyr; a ddylai deimlo eu bod yn gallu disgrifio eu profiadau. Mae'r profiadau hyn yn rhoi persbectif y defnyddiwr gwasanaeth i'r bwrdd iechyd ar yr hyn a oedd yn gweithio'n dda a'r hyn nad oedd yn gweithio gystal, yn monitro perfformiad ac yn dangos dysgu a gwella.

Er bod posterï neu wybodaeth gyfyngedig yn cael eu harddangos ar y ward, dywedwyd wrthym fod cleifion yn cael ffurflenni a gwaith papur digonol, pan ofynnwyd amdanynt.

Mae ymatebion staff yn yr holiadur yn dangos nad oedd y broses adborth yn cael ei deall yn dda. Roedd y rhain yn cynnwys yr ymatebion canlynol gan yr wyth aelod o staff a lenwodd yr holiadur:

- Dywedodd un ymatebydd na chasglwyd adborth ar brofiad cleifion/defnyddwyr gwasanaeth yn eu cyfarwyddiaeth/adran, ac atebodd pump gan nodi nad oeddent yn gwybod
- Dywedodd tri ymatebydd nad oeddent yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar adborth profiad cleifion a defnyddwyr gwasanaeth yn eu cyfarwyddiaeth/adran, nid oedd tri yn gwybod
- Dywedodd dau ymatebydd nad oedd adborth gan gleifion a defnyddwyr gwasanaeth yn cael ei ddefnyddio i wneud penderfyniadau gwybodus yn eu cyfarwyddiaeth/adran, ac nid oedd pump yn gwybod.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:

- Dylai cleifion gael gwybod am ganlyniadau'r adborth, mewn man amlwg ar y ward
- Gwneir staff yn ymwybodol o sut mae'r broses adborth yn gweithio'n ymarferol.

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Canfuom fod tîm y staff wedi ymrwymo i roi gofal diogel ac effeithiol i gleifion.

Gwnaethom nodi bod trefniadau effeithlon ac effeithiol ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaethau a chwblhawyd gwiriadau gorfodol ar offer dadebru.

Roedd offer addas ar gael ac yn cael eu defnyddio i helpu i atal datblygiad briwiau pwyso a chodymau cleifion.

Roedd y wardiau wedi'u cynnal a'u cadw'n dda, yn lân ac yn daclus, ac roedd trefniadau ar waith i leihau croes-heintio.

Gwnaethom nodi rhai gwelliannau gan gynnwys diogelwch ar y ward a staff i olchi eu dwylo yn amlach.

### **Gofal diogel**

Dywedodd saith aelod o staff a lenwodd ein holiadur fod ganddynt ddigon o ddeunyddiau, cyflenwadau ac offer i wneud eu gwaith, a dilynwyd gweithdrefnau atal a rheoli heintiau. Dywedodd saith aelod o staff fod digon o staff fel arfer, neu weithiau, yn gweithio yn yr adran i wneud eu gwaith yn iawn. Fodd bynnag, dywedodd un nad oedd digon o staff ar unrhyw adeg. Hefyd, roedd staff o leiaf weithiau'n fodlon ag ansawdd y gofal y maen nhw'n ei roi i gleifion.

Dywedodd chwech o'r wyth aelod o staff a ymatebodd fod gan eu sefydliad bob amser, neu fel arfer, y wybodaeth gywir i fonitro ansawdd gofal ar draws yr holl ymyriadau clinigol, a'u bod yn ymateb yn gyflym pan oedd diffygion. Dywedodd chwe ymatebydd hefyd eu bod bob amser, neu fel arfer yn fodlon, ag ymdrechion eu sefydliad i'w cadw nhw a'u cleifion yn ddiogel.

Gwnaethom nodi bod nifer o siartiau ar y wal ym mynedfa'r ward. Dangosodd un gwympiadau yn yr ysbyty yn ystod y dydd, gan gynnwys siart ar ble digwyddodd y cwympiadau. Yn ogystal â hyn, roedd siart yn dangos unrhyw achosion o niwed pwyso, a gafwyd yn ystod y dydd yn y ward, neu a gawsant eu derbyn neu eu trosglwyddo gyda'r niwed pwyso. Roedd hefyd amserlen lanhau wythnosol i

nyrsys a gweithwyr cymorth gofal iechyd, a gwiriadau dyddiol gan nyrsys. Gwnaethom hefyd nodi'r amserlenni glanhau domestig yn y ceginau, a chofnod rheoli tymheredd oergell y claf, a oedd i gyd mewn trefn ac yn dangos y gwiriadau rheolaidd gofynnol.

### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Roedd y ward yn hygyrch i bobl anabl a phobl ag anawsterau symudedd, ac roedd yn hawdd dod o hyd iddi. Roedd y ward yn rhan o estyniad unllawr i'r prif adeilad yn yr ysbyty. Roedd amgylchedd mewnol y ward yn lân, ond roedd angen rhoi sylw i du allan rhannau o'r adeilad. Nodwyd llawer o welliannau ar y ward, fel y disgrifir uchod, gan gynnwys dodrefn, gosodiadau a ffitiadau.

Roedd cleifion dementia symudol ar y ward. Fel y disgrifiwyd yn flaenorol, roedd y drws ar waelod y ward ar agor trwy'r dydd, ac roedd yn arwain at ramp a oedd yn arwain at y ffordd. Nid oedd larwm ar y drws pan oedd ar gau. Roedd loceri cleifion wedi'u lleoli yn y coridor fel bod staff yn gallu cadw cyfarpar diogelu personol ynddynt, gan nad oedd rholeri ar gael ar gyfer ffedogau. Roedd posteri ar COVID-19 wedi'u hanelu ar gyfer y staff. Roedd arwyddion ar gadw pellter cymdeithasol ar hyd a lled llawr gwaelod y safle, er bod rhai yn ardal y cleifion mewnol bellach yn aneglur ac roedd angen gosod rhai newydd.

Gwelwyd asesiadau risg, gan gynnwys asesiad risg tân, iechyd a diogelwch o'r gofrestr risg sy'n ymwneud â'r ysbyty. Nododd yr arweinydd clinigol, yr oedd ei gyfrifoldebau'n cynnwys yr ysbyty, fod gwelliannau sylweddol wedi'u gwneud i reoli'r risg o dân yn yr ysbyty.

Dywedwyd wrthym fod y cynllun parhad busnes wedi'i adolygu'n gynhwysfawr ynghylch sut yn union i reoli digwyddiad mawr. Byddai digwyddiad mawr yn cael ei nodi pe bai'n rhaid symud 20 o gleifion o'r adeilad, gan fod y trefniadau lloches gwreiddiol ar gyfer 12 o gleifion. Newidiwyd hyn oherwydd rhesymau cysylltiedig â COVID-19 (nid oedd y cartref gofal preswyl lleol bellach mewn safle i ddarparu noddfa, felly byddai'r ysgol leol yn cael ei defnyddio). Roedd hyn yn cynnwys yr angen am gyfarfod safle rhwng yr awdurdod lleol, gwasanaethau brys, swyddog tân yr ysbyty, uwch staff a chydweithwyr cynllunio brys o fewn y bwrdd iechyd. Roedd y cynlluniau drafft hyn yn y camau olaf o'u cwblhau. Effeithiwyd ar y manylion hefyd gan archwiliad allanol y gwasanaeth tân ym mis Mehefin. Roedd yr archwiliad hwn yn gofyn am welliannau pellach ledled y safle, gan gynnwys lloeriau uchaf yr hen adeilad. Yn ychwanegol at hyn, roedd uwch gydweithwyr ystadau wedi cynnal arolygon cynhwysfawr, ac bellach wedi trefnu i ychwanegu adran bellach ar draws y safle cyfan. Roedd angen drysau tân a gwydro ychwanegol ac roedd y swyddog tân yn adolygu cynlluniau gweithredu'r ward ymhellach. Roedd disgwyl i'r gwasanaeth tân ailedrych ar ddiwedd y mis hwn.

Disgrifiodd rheolwr y ward y digwyddiadau ar y ward, a'r broses adrodd am ddigwyddiadau yn gyffredinol. Dilynodd y ward bolisi'r bwrdd iechyd ac adrodd ar faterion ar system DATIX. Byddai'r holl ddysgu ar y digwyddiadau hyn yn cael ei roi yn ôl fel adborth i staff. O'r gyfres o gwestiynau ar yr arolwg yn ymwneud â digwyddiadau a gwallau, ymatebodd staff fel a ganlyn:

- Dywedodd dau eu bod wedi gweld gwallau, digwyddiadau y bu ond y dim iddynt ddigwydd, neu ddigwyddiadau eraill yn effeithio ar staff yn ystod y mis diwethaf
- Ni ddywedodd unrhyw un eu bod wedi gweld gwallau, digwyddiadau y bu ond y dim iddynt ddigwydd, neu ddigwyddiadau eraill yn effeithio ar gleifion yn ystod y mis diwethaf
- Dywedodd pump mai'r tro diwethaf iddynt weld gwallau, digwyddiadau y bu ond y dim iddynt ddigwydd, neu ddigwyddiadau eraill, y gwnaethant adrodd amdanynt
- Cytunodd pump aelod o staff bod eu sefydliad yn trin staff sy'n gysylltiedig â gwall, digwyddiad y bu ond y dim iddo ddigwydd, neu ddigwyddiad arall yn deg, ond roedd un yn anghytuno'n gryf
- Cytunodd saith ymatebydd fod eu sefydliad yn eu hannog i adrodd ar unrhyw wallau, digwyddiadau y bu ond y dim iddynt ddigwydd, neu ddigwyddiadau eraill
- Cytunodd chwe ymatebydd fod eu sefydliad wedi trin adroddiadau am wallau, digwyddiadau y bu ond y dim iddynt ddigwydd, neu ddigwyddiadau eraill yn gyfrinachol, ond unwaith eto roedd un yn anghytuno
- Cytunodd pedwar ymatebydd nad yw eu sefydliad yn beio nac yn cosbi pobl sy'n ymwneud â gwallau, digwyddiadau y bu ond y dim iddynt ddigwydd, neu ddigwyddiadau eraill, ac eto roedd un yn anghytuno
- Cytunodd pum ymatebydd, pan adroddwyd ar wallau, digwyddiadau y bu ond y dim ddigwydd neu ddigwyddiadau eraill, bod eu sefydliad wedi gweithredu i sicrhau na fyddent yn digwydd eto
- Cytunodd dau ymatebydd eu bod wedi cael gwybod am wallau, digwyddiadau y bu ond y dim iddynt ddigwydd neu ddigwyddiadau eraill a ddigwyddodd yn y sefydliad, ac roedd dau yn anghytuno (un yn anghytuno'n gryf)
- Roedd dau ymatebydd yn anghytuno eu bod wedi cael adborth am newidiadau a wnaed mewn ymateb i wallau, digwyddiadau y bu

ond y dim iddynt ddigwydd a digwyddiadau eraill yr adroddwyd amdanynt

- Dywedodd dau ymatebydd nad oedd eu rheolwr uniongyrchol yn rhoi adborth clir ar eu gwaith.

Cytunodd chwe aelod o staff a fynegodd farn yn yr holiadur fod y sefydliad wedi gweithredu ar bryderon a godwyd gan gleifion/defnyddwyr gwasanaeth. Nododd yr holl ymatebwyr, pe byddent yn poeni am ymarfer clinigol anniogel, y byddent yn gwybod sut i roi gwybod amdano. Dywedodd mwyafrif y staff y byddent yn teimlo'n ddiogel yn codi pryderon am ymarfer clinigol anniogel, a'u bod yn hyderus y byddai eu sefydliad yn mynd i'r afael â'u pryderon.

Gwnaethom nodi bod corffdy ar y safle. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod staff â chymwysterau addas ar gael i reoli'r gwasanaeth hwn yn yr ysbyty, a bod y gwasanaeth yn dilyn gweithdrefnau'r bwrdd iechyd.

Roedd y coridor yn ymddangos yn anniben ac yn orlawn, roedd hyn oherwydd rhai newidiadau a wnaed ar gyfer gofynion yn ymwneud â COVID-19. Defnyddiwyd cypyrddau sbâr ar gyfer cleifion y tu allan i'r ystafelloedd unigol, a phedair uned wely i ddal cyfarpar diogelu personol. Dywedwyd wrthym fod hyn at ddibenion atal a rheoli heintiau gan nad oedd rholiau ffedogau ar y ward.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:

- Angen diogelu pob drws i'r ward, er mwyn atal cleifion rhag gadael y ward ar eu pen eu hunain
- Rhoddir adborth i staff, ar ffurf gwersi a ddysgwyd, ar ganlyniadau unrhyw ymchwiliadau sy'n ymwneud â gwallau, digwyddiadau y bu ond y dim iddynt ddigwydd, neu ddigwyddiadau eraill
- Bod staff â chymwysterau addas ar gael i reoli'r corffdy yn yr ysbyty, a bod y gwasanaeth yn dilyn gweithdrefnau'r bwrdd iechyd

Rhaid i'r bwrdd iechyd hefyd ymchwilio i ffyrdd amgen o storio cyfarpar diogelu personol i'w ddefnyddio gan staff yn yr ardaloedd cleifion.

#### Atal niwed pwyso a niwed i feinwe

Er bod sawl claf ar y ward â niwed pwyso a niwed i feinwe, dangosodd cofnodion y cleifion eu bod yn cyrraedd y ward gyda nhw, a bod y staff wedi rhoi cynlluniau

ar waith i ddelio â'r rhain. Roedd tystiolaeth o atgyfeirio i hyfywedd meinwe<sup>7</sup> lle bo angen, a dilynwyd argymhellion. Gwnaethom nodi tystiolaeth o drafodaeth lafar ymhlith y nyrsys ynghylch y gorchuddion a'r driniaeth fwyaf priodol ar gyfer y cleifion unigol.

### Atal cwympiadau

Cynhaliwyd asesiadau cwympiadau cychwynnol ar bob claf. Fodd bynnag, roedd y cynlluniau gofal a ddilynodd o'r asesiadau hyn ar ffurf blwch ticio ar daflenni generig. Ni wnaethant gynnwys sylwadau ychwanegol a allai wneud y cynlluniau'n fwy personol. Gwelwyd tystiolaeth o hyn hefyd trwy adolygu cynlluniau gofal lle'r oedd rhai yn generig eu natur ac nad oeddent wedi'u teilwra i'r unigolyn.

Nid oedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o unrhyw wasanaeth cwympiadau arbenigol. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym eu bod wedi cwblhau dogfen o'r enw I STUMBLE<sup>8</sup>, offeryn sy'n asesu cwympiadau, pe bai claf yn cwmpo. Byddai'r ddogfen wedyn yn cael ei ffeilio gyda nodiadau'r claf. Dywedwyd wrthym, er mwyn cyrchu'r risg o gleifion yn dioddef cwympiadau, bod asesiad yn cael ei gynnal o'r amgylchedd, a meddyginiaeth, eiddilwch, pwysedd gwaed, nodiadau ac esgidiau y cleifion. Os oedd gan y claf risg uchel o gwmpo, fe'u rhoddyd ar wely isel gyda matiau pwyso er mwyn canfod symudiad, ac roedd rhai ar system larwm, er bod oediad o bum eiliad. Ni chafwyd unrhyw ddamweiniau adroddadwy yn 2021.

### Atal a rheoli heintiau

Roedd cleifion ar y cyfan yn hapus yn gyffredinol ag ardal y ward a'u gwelyau oni bai am y broses o fynd i'r toiled, ond nid oedd mwyafrif y cleifion yn ymwybodol o'r amgylchedd cyffredinol.

Dywedodd pob un o'r saith claf a ymatebodd fod y lleoliad yn lân iawn. Gofynnwyd cwestiwn ynghylch y gweithdrefnau sy'n cydymffurfio â COVID-19 yn

---

<sup>7</sup>Mae Nyrsys Hyfywedd Meinwe yn darparu cymorth ac addysg ym maes gofal clwyfau ac atal niwed pwyso er mwyn galluogi gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i ddarparu gofal cost effeithiol sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

<sup>8</sup>Offeryn sy'n asesu cwympiadau yw I STUMBLE, gyda'r nod o helpu staff gofal i benderfynu a yw'n ddiogel i godi rhywun sydd wedi cwmpo gan ddefnyddio offer codi priodol neu a yw wedi anafu ac angen ambiwlans.



ystod ymweliadau cleifion, a dywedodd y saith eu bod. Gofynnwyd cyfres o gwestiynau i staff yn yr holiadur yn ymwneud â chydymffurfio â COVID-19. Roedd yr ymatebion yn cynnwys y canlynol:

- Cytunodd saith ymatebydd fod eu sefydliad wedi gweithredu'r newidiadau amgylcheddol angenrheidiol
- Cytunodd yr wyth ymatebydd fod eu sefydliad wedi gweithredu'r newidiadau ymarfer angenrheidiol a bod gweithdrefnau atal a rheoli heintiau fel arfer yn cael eu dilyn
- Cytunodd pum ymatebydd a fynegodd farn y bu cyflenwad digonol o gyfarpar diogelu personol
- Cytunodd chwe ymatebydd fod trefniadau dadheintio ar gyfer offer ac ardaloedd perthnasol.

Dywedwyd wrthym fod cyfraddau heintiau yn isel a nodwyd bod pawb, o'r cofnodion staff a wiriwyd, wedi cwblhau hyfforddiant atal a rheoli heintiau. Ni dderbyniwyd cleifion â COVID-19. Cyn eu derbyn ac ar ôl eu derbyn, cafodd cleifion eu profi a'u sgrinio ar gyfer COVID-19. Cawsom hefyd y meini prawf derbyn ar gyfer ysbytai cymunedol y bwrdd iechyd, wedi'i ddyddio Ebrill 2021.

Cawsom gopi o'r dangosfwrdd monitro iechyd a gofal ar gyfer atal a rheoli heintiau yn yr ysbyty. Dangosodd hyn mai dim ond 44% oedd yn cydymffurfio â'r rheolau hylendid dwylo ym mis Gorffennaf 2021, a dim ond 21% oedd yn cydymffurfio ym mis Awst. Dywedodd rheolwr y ward fod staff yn cael eu hatgoffa'n rheolaidd am yr angen i gadw'r dwylo yn lân. Hefyd, dim ond 38% oedd y lefel o gydymffurfio â'r amserlen glanhau'r ward ym mis Awst 2021. Nodwyd hyn hefyd wrth arsylwi staff ar y ward. Er bod menyg yn cael eu newid fel mater o drefn rhwng cleifion, roedd dibyniaeth ar ddiheintydd dwylo, ac nid oedd staff o reidrwydd yn defnyddio sebon a dŵr.

Gwnaethom wirio sampl o gasglu data aciwtedd dros dair wythnos, a nodwyd nad oedd ail a thrydedd dudalen y gwaith papur wedi'u cwblhau gan y shifft nos a'r shifft dydd. Roedd y cwestiynau na chawsant eu cwblhau yn berthnasol i "a oedd nifer y staff yn hafal i'r rota?".

Gwnaethom hefyd wirio sampl o wiriadau nyrsio dyddiol dros gyfnod o dair wythnos, a gwnaethom nodi nad oedd y cofnodion wedi'u cwblhau'n llawn. Mewn un wythnos, dim ond ar naw o'r 35 gwiriad oedd wedi'u cynnal, ac mewn wythnos arall, dim ond 20 o'r 35 gwiriad a gynhaliwyd.

Roedd gan bob claf gadair freichiau ger y gwely, a oedd wedi'i lleoli i sicrhau cadw pellter cymdeithasol, a gwnaed ymdrech i sicrhau bod gwelyau cleifion ddau fetr oddi wrth ei gilydd. Roedd yr holl arwyddion a welwyd wedi'u sychu'n

lân â chadach, ac roedd y staff yn gwisgo'r cyfarpar diogelu personol priodol wrth ddelio ag anghenion cleifion gan newid rhwng pob tasg a phob claf. Nodwyd bod y cyfarpar diogelu personol yn cael ei wisgo a'i dynnu<sup>9</sup> er mwyn lleihau'r posibilrwydd o drosglwyddo'r haint.

Disgrifiwyd y newidiadau a wnaed oherwydd COVID-19 ar y ward, ac roedd hyn yn cynnwys cadw pellter cymdeithasol, glanhau, defnyddio cyfarpar diogelu personol, hyfforddiant penodol yn ymwneud â COVID-19 a sgrinio ar gyfer COVID-19. Cynhaliwyd asesiadau risg hefyd ar gleifion a oedd yn ymweld. Fodd bynnag, ni chaniatawyd unrhyw ymwelwyr cleifion wythnos yr arolygiad oherwydd prinder staff. Yr unig eithriad oedd pan ystyriwyd bod y claf yn glaf diwedd oes; cawsant eu symud i un ochr o'r ward.

Disgrifiodd rheolwr y ward y broses a fyddai'n cael ei dilyn pe bai unrhyw achosion o COVID-19 neu drosglwyddiadau nosocomiaidd. Roedd hyn yn cynnwys hysbysu'r tîm atal a rheoli heintiau a gweithio'n agos gyda nhw, yn ogystal â hysbysu eu rheolwr llinell a thrafod y mater ymhellach. Byddai staff sy'n agored i niwed yn gwarchod eu hunain, a byddai cyfarpar diogelu personol lefel uwch yn cael ei ddefnyddio. Profwyd pob claf am COVID-19 cyn cael eu derbyn i'r ward, cawsant eu profi eto 24 awr yn ddiweddarach, ac yna bob dydd am 14 diwrnod ar ôl cael eu derbyn. Yna cafodd cleifion eu profi bob wythnos, ac anfonwyd y swabiau profi i Ysbyty Bronglais i'w dadansoddi. Cwblhaodd staff brawf llif unffordd ddwywaith yr wythnos, ac os oedd y canlyniad yn gadarnhaol, byddent yn aros gartref. Ni fu unrhyw achosion o COVID-19 na throsglwyddiad nosocomiaidd yn y ward yn ystod y tri mis diwethaf.

Er bod prif ardaloedd y ward mewn cyflwr da, roedd angen gwella rhai ardaloedd yn y cefn. Ymhlith yr enghreifftiau, roedd yr ystafell storio ocsigen, toiled y staff lle nad oedd gorchuddion waliau'r toiled wedi'u gosod yn iawn ac roedd crôm fflysiol'r toiled a'r tap wedi'u difrodi. Roedd hefyd drysau pren mewn rhai ardaloedd na ellid eu glanhau'n hawdd. Dywedwyd wrthym gan yr arweinydd clinigol yr oedd ei gyfrifoldebau'n cynnwys yr ysbyty, bod nifer o faterion llai yn ymwneud ag ystadau ymhlith yr holl ddarnau mawr o waith a wnaed. Roedd y rhain yn cynnwys cael gwared ar yr holl eitemau pren neu hysbysfyrdau anfagnetig, gan mai dim ond hysbysiadau wedi'u lamineiddio y gellid eu harddangos. Roedd staff ystadau wedi manteisio ar ymgymryd â'r eitemau hyn. Yn ddiweddar, crëwyd y tyllau yn y wal yn ardal y therapydd galwedigaethol wrth

---

<sup>9</sup>Gwisgo – gwisgo cyfarpar diogelu personol; Tynnu – tynnu cyfarpar diogelu personol.

i silffoedd pren a bwrdd arddangos taflenni plastig gael eu tynnu i lawr. Cynlluniwyd i waith atgyweirio addurniadol gael ei gwblhau pan oedd addurnwyr ar y safle i weithio ar ystafell fwyta'r staff; roedd hyn ymhell ar ôl yr amserlen gan fod y tîm oedd yn gyfrifol wedi cael ei effeithio gan aelodau oedd angen hunan-ynysu.

Roedd pum ystafell ochr y gellid eu defnyddio ar gyfer ynysu neu ofal terfynol ac roedd staff yn ymwybodol o'r goblygiadau a'r rhagofalon i'w cymryd. Wrth drafod â staff domestig, fe wnaethant egluro'n llawn sut y byddent yn ymateb wrth fynd i mewn ac allan o'r ystafell hon, ynghyd â chwblhau'r gwaith glanhau ar ôl i'r unigolyn symud ymlaen. Roedd dyfeisiau miniog mwy diogel yn cael eu defnyddio ac ni welwyd unrhyw finiau yn gorlifo.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'u gofynion ac yn deall eu cyfrifoldeb i reoli heintiau yn eu rôl. Esboniodd staff domestig y broses o lanhau dwfn wrth ryddhau cleifion, a hefyd yr offer a ddefnyddir. Roeddent hefyd yn gallu esbonio'r weithdrefn os oedd claf yn cael canlyniad positif o COVID-19 a'r glanhau a oedd ei angen.

Fel arfer, roedd dau lanhawr yn gweithio'r shifft gynnar a dau yn gweithio'r shifft hwyr, ond ar hyn o bryd roedd cymorth ychwanegol ar gael, felly roedd pump yn gweithio bob shifft. Dywedodd staff fod rhaid iddynt gadw pellter cymdeithasol oddi wrth ei gilydd, a'u bod yn cwblhau prawf llif unffordd bob wythnos.

Oherwydd COVID-19, roedd yr ystafell ddydd ar gau i gleifion. Yn ogystal â hyn, roedd rhaid tynnu nifer o eitemau yr oedd staff yn credu oedd yn gwneud y ward a'r ystafell ddydd yn fwy "cartrefol" i gleifion, gan gynnwys lluniau a hysbysiadau.

Gwnaethom nodi nad oedd gan y toiled ymwelwyr ar waelod y ward fasn golchi dwylo yn yr ystafell; roedd hwn wedi'i leoli yn yr ystafell wrth ymyl y toiled. Dywedwyd wrthym mai un o ychydig o ddarnau mwy o waith oedd adnewyddu cyfleusterau cyhoeddus a staff ym mhen pellaf y safle. Mae angen darparu cawod fwy hygyrch i staff, a thoiled gyda chyfleusterau golchi dwylo yn yr un ardal; roedd tendr wedi'i anfon er mwyn cael pris.

*Sepsis:*

Dywedwyd wrthym fod yr elfen e-ddysgu o hyfforddiant techneg gwrth-gyffwrdd aseptic<sup>10</sup> wedi'i hymgorffori yn y cofnod staff electronig ond ni chofnodwyd yr hyfforddiant sepsis, ALERT<sup>11</sup>, yno. Dilynwyd y llwybr sepsis<sup>12</sup>. Oherwydd hyn, ni welsom unrhyw dystiolaeth yn y pum cofnod staff a wiriwyd eu bod wedi cwblhau'r hyfforddiant sepsis.

Ni fu unrhyw gleifion â sepsis ers mis Mai 2021 yn ôl llyfr cofnodi sgrinio sepsis y wardiau. Gwiriwyd y llyfr hwn ac roedd yr holl gofnodion blaenorol yn glir ac wedi'u cwblhau'n gywir gydag un copi yn cael ei anfon gyda'r claf pe bai'n cael ei drosglwyddo, a chopi yr union yr un peth yn cael ei gadw yn y llyfr ar gyfer cofnod y ward.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:

- Atgoffir staff o bwysigrwydd hylendid dwylo a golchi eu dwylo yn ôl yr angen yn dilyn pob ymyriad â chleifion a chyn gwisgo eu menig
- Mae dystiolaeth o hyfforddiant sepsis ar y cofnod staff electronig, ac mae'r holl staff yn derbyn hyfforddiant sepsis perthnasol
- Cwblheir data aciwtedd wythnosol yn llawn
- Cwblheir yr holl wiriadau nyrsio dyddiol yn llawn.

---

<sup>10</sup>Mae techneg gwrth-gyffwrdd aseptic yn ddull o weithio lle mae'r ymarferydd yn dilyn egwyddorion asepsig i sicrhau nad yw'r gydran ddiheintiedig (rhan allweddol), er enghraifft, nodwydd, yn dod i gysylltiad ag arwyneb nad yw'n ddiheintiedig.

<sup>11</sup>Mae ALERT yn gwrs aml-broffesiynol i hyfforddi staff i gydnabod dirywiad cleifion, ac i weithredu'n briodol wrth drin y rhai sy'n ddifrifol wael.

<sup>12</sup> <https://pathways.nice.org.uk/pathways/sepsis>

## Maeth a hydradu

Gwnaethom arsylwi amser bwyd yn y ward a gwelsom staff yn cynorthwyo cleifion i fwyta eu bwyd. Er bod hambyrddau coch<sup>13</sup> ar gael i'w defnyddio ar gyfer y cleifion perthnasol, nid oedd yn ymddangos bod staff yn gwbl ymwybodol o'r rheswm dros eu defnyddio. Gwelwyd sawl claf yn cael cymorth i fwyta eu prydau bwyd, ond nid oedd ganddynt hambyrddau coch.

Yn ogystal â hyn, roedd statws y claf ar fwrdd cipolwg<sup>14</sup> yn nodi'r math o ddeiet ond nid pwy oedd angen cymorth, ar wahân i un unigolyn, ac un arall yr oedd angen eu hannog i fwyta.

Er bod y ward yn defnyddio llwybr Maeth Cymru gyfan<sup>15</sup>, roedd yn ymddangos bod y broses gofnodi yn anghyson, hynny yw roedd yn cael ei chwblhau un diwrnod ond nid y diwrnod canlynol. Lle roedd yn cael ei dilyn, fe'i cofnodwyd yn gywir ar siart Cymru Gyfan. Cwblhawyd cofnodion bwyd yn achlysurol ac yn anghyson ym mron pob un o'r cofnodion cleifion a adolygwyd. Nid oedd yn hawdd sefydlu pwy oedd yn cofnodi cymeriant bwyd, yr amllder a'r rheswm pam.

Er bod amseroedd bwyd yn ddiogel a bod amseriad y prydau bwyd yn dderbyniol, ar y diwrnod y gwnaethom edrych ar y system gweini prydau, roedd oedi wrth weini a danfon y bwyd. Dywedwyd wrthym bod hyn o ganlyniad i brinder staff. Yn ogystal â hyn, bu peth oedi cyn i gleifion dderbyn cymorth i fwyta, o bosibl oherwydd bod llawer o aelodau'r staff hynny yn cynorthwyo cleifion. Roedd hyn hefyd yn effeithio ar ddsbarthu prydau mewn modd amserol. Fodd bynnag, roedd y bwyd a ddarperir yn edrych yn boeth ac yn flasus ac hefyd yn aroglï'n dda. Roedd dewis da o brydau bwyd ar gael, cytunodd yr holl gleifion y

---

<sup>13</sup>Mae hambyrddau coch yn helpu nyrsys i nodi'n hawdd pwy sydd angen yr anogaeth neu'r cymorth mwyaf gyda bwyta. Mae'r hambwrdd coch hefyd yn dangos bod y claf ar siart cofnod bwyd sy'n galluogi'r staff nyrsio i fonitro faint o fwyd sy'n cael ei fwyta.

<sup>14</sup>Bwrdd Cipolwg ar Statws Cleifion yw defnyddio arddangosfa weledol o wybodaeth a chyfarfodydd dyrannu staff / trosglwyddo, er mwyn darparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar eich tîm yn fwyaf rheolaidd. Mae'n darparu eglurder ynghylch pwy sy'n gwneud beth, i bwy ac yn darparu strwythur ar gyfer eich cyfarfodydd trosglwyddo

<sup>15</sup>Mae Llwybr Gofal Maeth Cymru Gyfan ar gyfer Ysbytai yn manylu ar y llwybr ar gyfer sgrinio maeth cleifion wrth iddynt gael eu derbyn, a'r gofal maethol y maent yn ei gael trwy gydol eu harhosiad yn yr ysbyty. Cefnogir y llwybr gan Siart Cofnodion Bwyd Cymru a'r Siartiau Cymeriant ac Allbwn Dyddiol ac Wythnosol diwygiedig i safoni cadw cofnodion yn ysbytai'r GIG ledled Cymru.

gwnaethom siarad â nhw fod y bwyd yn dda. Dywedodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn cael bwydlenni gydag opsiynau ar gyfer pob pryd bwyd, a bod cymorth yn cael ei roi os gofynnir amdano ac os oedd ei angen. Roedd jygiau dŵr a gwydrau ar gyfer pob gwely. Darparwyd gwelltyn yn ôl yr angen. Gosodwyd jygiau a gwydrau o fewn cyrraedd i'r claf.

Roedd yn ymddangos bod pob claf wedi cael cymorth i eistedd yn gyffyrddus, a chafodd byrddau eu clirio a'u glanhau cyn eu prydau bwyd. Roedd gan gleifion gadachau dwylo wrth eu gwely a chawsant eu hannog a'u hatgoffa i sychu neu olchi eu dwylo cyn prydau bwyd, ond ni chawsant eu cynorthwyo i wneud hynny.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:

- Mae staff yn defnyddio hambyrddau coch ac mae'r hambyrddau'n cael eu defnyddio'n briodol
- Mae statws y claf mewn bwrdd cipolwg yn cynnwys gwybodaeth lawn am ofynion maeth cleifion
- Mae'r siartiau maeth cleifion wedi'u cwblhau'n llawn ar ôl pob pryd bwyd.

### Rheoli meddyginiaethau

Gwnaethom edrych ar sampl o Siartiau Cyffuriau Cymru Gyfan (y siart) a nodwyd eu bod wedi'u cwblhau'n gywir. Roeddent yn cael eu llofnodi a'u dyddio'n gyson wrth eu rhagnodi a'u gweinyddu, a chofnodwyd enwau a hunaniaethau pob claf trwy'r siartiau. Roedd yn amlwg beth oedd yn cael ei roi i bob claf, ac nid oedd tystiolaeth o hunan-weinyddu meddyginiaeth ar hyn o bryd. Lle na roddwyd meddyginiaeth ar bresgripsiwn, cofnodwyd y rheswm yn glir. Gwelsom fod technegydd fferyllfa o Ysbyty Cyffredinol Bronglais, Aberystwyth yn mynychu'r ysbyty bob dydd Mawrth. Roeddent yn gwirio a chylchdroi'r stoc, yn ogystal ag archebu stoc i'r ward. Comisiynwyd tîm rheoli meddyginiaethau Bronglais i anfon fferyllydd i'r ward unwaith yr wythnos. Roedd y dyletswyddau'n cynnwys delio â

gofynion cyffuriau<sup>16</sup> a reolir, gan gynnwys eu harchebu a chael gwared ohonynt. Roedd mynediad y tu allan i oriau trwy fferyllfa Bronglais.

Gwnaethom nodi bod yr holl ocsigen a weinyddwyd wedi'i ragnodi ar y siart a'i fod wedi'i ragnodi a'i lofnodi'n gywir. Gwnaethom siarad â rheolwr y ward am weinyddu ocsigen ac roedd y fethodoleg a ddisgrifiwyd yn cydymffurfio â'r canllawiau cenedlaethol. Roedd hylifau mewnythiennol (IV) yn cael eu rhagnodi'n gywir ar y ddogfennaeth gywir. Dangosodd trafodaeth gyda rheolwr y ward fod dealltwriaeth a defnydd cywir o weithdrefnau. Roedd hylif mewnythiennol yn cael ei storio'n briodol, a dangosodd trafodaethau bod gan staff ddealltwriaeth lawn o fonitro a chofnodi yn gywir.

Roedd y polisi rheoli meddyginiaethau ar gael ar-lein trwy borth y GIG yr oedd gan yr holl staff perthnasol fynediad iddo. Roedd pob cyffur, gan gynnwys cyffuriau a reolir, yn cael eu storio'n ddiogel mewn cypyrddau dan glo neu mewn trolïau meddyginiaethau dan glo diogel. Roedd pob cyffur a reolir yn cael eu cofnodi a'u llofnodi'n gywir, ac roeddent yn cael eu gwirio'n ddyddiol yn erbyn y llyfr cofnodi cyffuriau a reolir. Roedd tymheredd yr oergell yn cael ei fonitro'n ddyddiol. Fodd bynnag, nid oedd thermomedr wal yn yr ystafell feddyginiaeth, ac roedd staff yn amharod i agor y ffenestr oherwydd nifer y pryfed a fyddai wedyn yn yr ystafell. Gwnaethom hefyd edrych ar ddarpariaeth meddyginiaethau ar y ward, a nodwyd bod popeth mewn trefn. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'r angen i rieni, gofalmwr a gwarcheidwaid gael eu cefnogi i ddeall y meddyginiaethau a roddir, a'r weinyddiaeth sy'n angenrheidiol ar ôl cael eu rhyddhau o'r ward.

Defnyddiwyd tabardau coch plastig i sicrhau bod system ar gyfer rhoi meddyginiaethau yn ddiogel ac yn ddigynnwrf, ac er mwyn sicrhau nad oedd staff sy'n rhoi meddyginiaethau yn cael eu haflonyddu. Fodd bynnag, nododd staff ymyrraeth gyson â'r ddarpariaeth feddyginiaeth, oherwydd cynnydd yn nifer y cleifion a phrinder staff. Gellir hwyluso hyn wrth symud ymlaen trwy gyflwyno clerc ward.

Gwnaethom nodi bod rhai eitemau wedi'u hagor ond nad oedd y dyddiad agor wedi'i nodi. Hefyd defnyddiwyd meddyginiaeth eraill, ond ni ysgrifennwyd enw'r

---

<sup>16</sup>Mae meddyginiaethau a reolir yn cynnwys rhai cyffuriau lleddfu poen cryf, fel morffin, a rhai tawelyddion a symbylwyr. Mae meddyginiaethau sy'n helpu gyda dibyniaeth, fel methadon, hefyd yn cael eu rheoli.

unigolyn y dyrannwyd y meddyginiaeth iddo ar y feddyginiaeth ei hun. Tynnwyd yr holl eitemau uchod yn ystod yr arolygiad.

Roedd gwiriadau'r troli dadebru yn cael eu cwblhau bob dydd ac roedd profion priodol yn cael eu cynnal. Roedd yr ardal lle cadwyd y troli yn lân ac wedi'i threfnu'n dda ac roedd yr holl eitemau ar y troli o fewn eu dyddiad darfod.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:

- Dylid gosod thermomedr wal yn yr ystafell feddyginiaethau a chynnal gwiriadau i'r tymheredd a'u cofnodi bob dydd
- Rhaid rheoli meddyginiaeth yn gywir pan gaiff ei agor, gan gynnwys nodi pwy sydd wedi defnyddio'r feddyginiaeth.

### Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Dywedodd yr holl gleifion y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysbyty, a'i bod yn hawdd siarad â staff os oeddent yn poeni am unrhyw beth.

Nid oedd unrhyw gleifion ar y ward yn destun diogelu oedolion sy'n agored i niwed<sup>17</sup> neu drefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid<sup>18</sup>. Dywedwyd wrthym fod staff yn ymwybodol o'r hyfforddiant perthnasol ac fe wnaethant siarad â'r tîm iechyd meddwl perthnasol am unrhyw glaf a oedd gydag unrhyw broblemau yn ymwneud â galluedd.

Byddai unrhyw gleifion sydd angen eiriolaeth yn cael eu cyfeirio at wasanaeth eiriolaeth y bwrdd iechyd.

---

<sup>17</sup>Mae Polisi Cymru yn diffinio oedolyn sy'n agored i niwed fel: "Unigolyn sy'n 18 oed neu'n hŷn, ac a allai fod angen gwasanaethau gofal cymunedol oherwydd anabledd meddyliol, oedran, salwch neu anabledd arall, ac sydd methu, neu o bosib methu, gofalu amdano'i hun, neu'n methu diogelu eu hunain yn erbyn niwed sylweddol neu ecsbloetio difrifol."

<sup>18</sup> Mae'r Trefniadau Diogelu Wrth Amddifadu o Ryddid yn rhan o Ddeddf Gallu Meddyliol 2005. Mae'r Trefniadau Diogelu Wrth Amddifadu o Ryddid ond yn berthnasol i'r unigolion hynny na allant wneud penderfyniadau ynghylch bod mewn ysbyty neu gartref gofal i gael gofal a thriniaeth. Gelwir hyn yn brin o alluedd.



Nid oedd cleifion yn destun goruchwyliaeth gyson, ond nododd staff y byddai arsylwadau un i un yn cael eu trefnu lle bo angen, lle bo hynny'n bosibl, er y gallai hyn arwain at aelod o staff ddim ar gael ar gyfer ei ddyletswyddau arferol.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gallu disgrifio'r materion diogelu perthnasol. Roedd rheolwr y ward i fod i gwblhau hyfforddiant ar asesu galluedd meddyliol o fewn yr wythnosau nesaf a dylai hyn helpu i gynyddu ymwybyddiaeth y staff a'u gwybodaeth.

### **Rheoli gwaed**

Pan oedd angen cynhyrchion gwaed, fe'i cafwyd gan Ysbyty Bronglais; hyfforddwyd rhai staff i reoli gwaed a byddai'r rota yn cael ei drefnu i sicrhau bod staff priodol ar gael. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn dilyn protocol Bronglais ar gyfer rhoi gwaed a chofnodi'r wybodaeth. Nid oedd cynhyrchion gwaed yn cael eu storio yn yr ysbyty, a dim ond pan oedd angen i staff ddefnyddio'r cynhyrchion gyda chleifion y cawsant eu danfon i'r ysbyty. Dychwelwyd cynhyrchion nas defnyddiwyd i Fronglais.

### **Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol**

Gwnaethom nodi bod offer dadebru priodol ar y ward, a oedd mewn lleoliad cyfleus. Roedd tystiolaeth bod offer dadebru wedi'i wirio yn ôl gofynion y polisi lleol. Ystyriwyd bod y gwiriadau hyn wedi'u cwblhau i safon uchel iawn.

Roedd offer priodol ar waith ar y ward, i gefnogi anghenion y cleifion. Roedd hyn yn cynnwys fframiau cerdded, comodau, offer monitro a theclynnau codi. Gwnaethom nodi bod yr offer clinigol a wiriwyd yn cael ei gynnal a'i gadw'n briodol. Os oedd angen unrhyw beth ychwanegol, cafwyd y pethau hynny gan Ysbyty Bronglais. Disgrifiwyd y trefniadau cynnal a chadw ar gyfer offer, ynghyd â'r trefniadau ar gyfer adrodd ar ddiffygion gydag offer. Roedd tîm electroneg meddygol ym Mronglais a oedd yn gyfrifol am yr offer. Nhw oedd yn delio â gwiriadau, gwasanaethu a diffygion. Roedd gwelyau a theclynnau codi yn cael eu gwirio a'u gwasanaethu gan gwmnïau arbenigol. Roedd yr holl offer ym Mronglais wedi cael eu diheintio.

## **Gofal effeithiol**

### **Gofal diogel a chlinigol effeithiol**

Roedd yn ymddangos bod dulliau rheoli poen yn dda, er mai ychydig o'r cleifion a gafodd eu hadolygu a gofnododd fod ganddynt boen yn y lle cyntaf. Gwelsom staff yn mynd trwy'r raddfa poen a'r opsiynau gydag un claf, cyn dychwelyd i adolygu effeithiolrwydd eu meddyginiaeth.

Defnyddiwyd statws claf mewn byrddau cipolwg yn ystafell y nyrsys ond nodwyd ar ddiwrnod cyntaf yr arolygiad ei fod yn cael ei gadw ar agor a bod yr ystafell yn hygyrch i amrywiaeth o bobl. Fodd bynnag, ymdriniwyd â'r wybodaeth berthnasol i adnabod y claf ar ail ddiwrnod ein harolygiad. Diweddarwyd y bwrdd gan yr holl staff ac roedd yn cynnwys y rhan fwyaf o'r wybodaeth yr oedd ei hangen i ofalu am yr unigolion.

Gwnaethom nodi bod yr ystafelloedd storio amrywiol a swyddfeydd wedi'u cloi, ac eithrio'r llifddorau lle roedd rhai cemegolion yn cael eu cadw ac o fewn cyrraedd. Gwelsom hefyd fod y trolïau glanhau gyda chemegau yn cael eu gadael yn y coridor heb oruchwyliaeth pan oedd staff yn glanhau'r ardaloedd â gwelyau. Fodd bynnag, roedd y coridorau'n brysur ar y cyfan a byddai cleifion yn cael eu dal pe byddent yn tynnu cemegau. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y llifddorau naill ai wedi'u cloi, neu fod unrhyw gemegau neu eitemau a allai achosi niwed pe byddent yn cael eu llyncu yn cael eu tynnu a'u cadw'n ddiogel mewn rhannau eraill o'r ysbyty.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y llifddorau naill ai wedi'u cloi neu fod unrhyw gemegau neu eitemau a allai achosi niwed pe byddent yn cael eu llyncu yn cael ei symud a'u cadw'n ddiogel mewn rhannau eraill o'r ysbyty.

#### Cadw cofnodion

Roedd cofnodion gofal cleifion yn cael eu cadw mewn ystafell dan glo a ddefnyddid gan y meddyg teulu. Gwnaethom edrych ar sampl o'r rhain a chanfod eu bod yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda ar y cyfan. Roedd y nodiadau yn glir ac wedi'u trefnu'n dda. Roedd cofnodion gofal yn adlewyrchu'r gofal a roddwyd i'r cleifion ac fe'u cwblhawyd mewn modd eithaf amserol, hynny yw yn ystod pob shift, os nad ar adeg benodol y weithred neu'r arsylwi ei hun.

Roedd tystiolaeth o'r broses drafod a gwneud penderfyniadau. Blychau ticio oedd y cynlluniau gofal eu hunain i raddau helaeth, ond roedd gweithredoedd a phenderfyniadau wedi'u dogfennu'n glir yn y darnau ysgrifenedig.

Roedd nodiadau ar gael pan ofynnwyd amdanynt. Roedd yr ysgrifennu yn glir ac yn gyfoes ar y cyfan. Roedd arolygiad o'r cynlluniau gofal yn hwyr oherwydd prinder staff. Roedd y cofnodion gofal ar gyfer un claf yn dda iawn ac roedd lefel dda o gynnwys. Gwnaethom hefyd nodi bod canlyniadau cyfarfodydd tîm amlddisgyblaethol yn cael eu hysgrifennu mewn modd amserol.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi darparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.*

Roedd y staff yn broffesiynol ac yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i gleifion.

Roedd staff yn gadarnhaol ar y cyfan yn eu hadborth am eu rheolwyr uniongyrchol a'r uwch-reolwyr

Dywedodd staff hefyd eu bod yn ymwybodol o'r strwythur uwch reolwyr o fewn y sefydliad a bod cyfathrebu rhwng yr uwch reolwyr a staff yn effeithiol ar y cyfan.

Nid oedd y cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol ar gyfer y ward yn dda yn gyffredinol.

Amlygwyd pryderon mewn perthynas ag achosion o staff yn teimlo y gallai fod gwahaniaethu yn y gweithle.

## Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Gofynnwyd i staff yr ysbyty lenwi holiadur AGIC ar-lein, er mwyn i ni ddarganfod sut oedd yr amodau gwaith ac i gael eu barn ar safon y gofal. Roedd cyfanswm o wyth holiadur ar-lein wedi'u cwblhau. Ni atebodd pob ymatebydd yr holl gwestiynau. Cawsom ymatebion gan amrywiaeth o staff o wahanol raddau a rolau. Gwnaethom hefyd siarad â sawl aelod o staff o amrywiaeth o rolau a graddau.

Gofynnwyd i'r staff yn yr holiaduron roi sgôr i ddangos pa mor aml yr oedd nifer o ddatganiadau am eu sefydliad yn wir yn eu profiad hwy. Cytunodd yr holl staff a fynegodd farn mai gofalu am gleifion/defnyddwyr gwasanaeth oedd prif flaenoriaeth y sefydliad. Yn ogystal â hyn, byddent yn hapus â safon y gofal a ddarperir gan eu sefydliad drostynt eu hunain neu ar gyfer ffrindiau neu deulu. Fodd bynnag, ni fyddai dau ymatebydd yn argymhell eu sefydliad.

Dywedodd mwyafrif y staff fod eu rheolwr uniongyrchol yn annog y rhai a oedd yn gweithio iddynt weithio fel tîm, a dywedodd y mwyafrif y gellid dibynnu ar eu

rheolwr uniongyrchol i helpu gyda thasgau anodd yn y gwaith. Dywedodd dau o'r wyth aelod o staff a ymatebodd nad oedd eu rheolwr uniongyrchol yn gofyn am eu barn cyn gwneud penderfyniadau, a oedd yn effeithio ar eu gwaith. Fodd bynnag, dywedon nhw i gyd fod eu rheolwr uniongyrchol yn gefnogol mewn argyfwng personol, ar y cyfan.

O ran uwch-reolwyr, dywedodd yr holl staff a ymatebodd i'r holiadur eu bod yn gwybod pwy oedd yr uwch-reolwyr, a dywedodd y mwyafrif fod cyfathrebu rhwng uwch-reolwyr a staff fel arfer yn effeithiol. Dywedodd mwyafrif y staff fod yr uwch-reolwyr wedi ceisio cynnwys staff mewn penderfyniadau pwysig, ar rai achlysuron o leiaf. Er bod mwyafrif yr ymatebwyr wedi dweud bod uwch-reolwyr wedi ymrwymo i ofal cleifion, nododd un y canlynol:

*“Mae'n teimlo bod y derbyniad nesaf yn bwysicach na'r gostyngiadau yn niferoedd y staff, aciwtedd uchel y claf a'r staff sy'n cael eu gor-weithio”*

Roedd strwythur rheoli clir ar waith ac roedd uwch staff yn ymwybodol o'u llinellau adrodd. Roedd rolau, cyfrifoldebau a llinellau atebolrwydd hefyd yn glir. Nodwyd bod rheolwr y ward yn bresennol, yn hygyrch ac yn barod i weithio ar y ward yn ôl yr angen.

Gwnaethom nodi bod cyfarfodydd dyddiol ar-lein gydag ymgysylltiad yr uwch-reolwyr, i drafod amryw faterion gan gynnwys staffio, rhyddhau cleifion, ac argaeledd gwelyau. Dywedwyd wrthym fod rhannu gwybodaeth i reolwyr yn digwydd trwy negeseuon e-bost electronig, gwybodaeth ar-lein, hysbysfyrdau, neu trwy'r ceisiadau rhannu gwybodaeth ar-lein. Dywedodd mwyafrif y staff eu bod yn edrych ar ganllawiau, rhybuddion diogelwch cleifion a rhybuddion dyfeisiau meddygol newydd yn rheolaidd. Dywedodd yr holl staff a fynegodd farn eu bod yn cael eu cefnogi i sicrhau bod rhybuddion diogelwch cleifion a rhybuddion dyfeisiau meddygol yn cael eu gweithredu ac yn cael eu dilyn.

O ran sut roedd y lleoliad yn sicrhau bod cydraddoldeb a dull seiliedig ar hawliau yn cael ei ymgorffori ar draws y gwasanaeth, dywedwyd wrthym eu bod yn dilyn polisi'r bwrdd iechyd ynghylch gwerthoedd, gonestrwydd a diffuantrwydd. Fe'n hysbyswyd gan reolwr y ward fod pwysigrwydd parchu staff a chleifion yn cael ei bwysleisio.

Yn yr holiadur, gwnaethom ofyn a oedd staff wedi wynebu gwahaniaethu yn y gwaith yn ystod y 12 mis diwethaf. Dywedodd pedwar o'r wyth a lenwodd yr holiadur, bod pobl wedi gwahaniaethu yn eu herbyn. Wedi dweud hynny, roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno bod gan staff fynediad teg a chyfartal i gyfleoedd yn y gweithle. Yn ogystal â hyn, cytunodd y mwyafrif fod eu gweithle yn cefnogi cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Roedd ymatebion staff yn yr holiadur yn ymwneud â'u gwaith yn cynnwys y canlynol:

- Dywedodd pedwar eu bod bob amser, neu fel arfer, yn gallu cwrdd â'r holl ofynion sy'n gwrthdaro yn ystod eu hamser yn y gwaith
- Dywedodd saith ymatebydd eu bod o leiaf weithiau'n cael y cyfle i awgrymu sut i wella gwaith eu tîm/adran
- Dywedodd saith ymatebydd eu bod fel arfer, neu weithiau, yn ymwneud â phenderfyniadau ar newidiadau a gyflwynwyd a oedd yn effeithio ar eu maes gwaith neu eu tîm
- Dywedodd chwech fod eu sefydliad yn eu hannog
- Dywedodd chwech fod y sefydliad bob amser, neu fel arfer, yn gefnogol
- Dywedodd chwech fod gan weithwyr proffesiynol rheng flaen a oedd yn delio'n uniongyrchol â chleifion, bob amser, neu fel arfer, y rhyddid i siarad a gweithredu pe byddent yn nodi problemau, yn unol â gofynion eu hymddygiad a'u cymhwysedd proffesiynol eu hunain
- Dywedodd chwech aelod o staff fod diwylliant o fod yn agored ac o ddysgu bob amser, neu fel arfer, o fewn y sefydliad a oedd yn cefnogi staff i nodi a datrys problemau.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y prosesau canlynol ar waith:

- Caniatáu i unrhyw aelod o staff roi gwybod am unrhyw faterion sy'n peri pryder yn fewnol, yn ogystal â sicrhau bod unrhyw bryderon a godir yn destun ymchwiliad ac ymateb priodol
- Sicrhau bod staff yn cael eu trin yn deg ac yn gyfartal, ac na fydd unrhyw achosion o wahaniaethu yn cael eu goddef ac y bydd camau priodol yn cael eu cymryd.

## Staff ac adnoddau

### Gweithlu

Dywedodd rheolwr y ward wrthym fod niferoedd y staff a'u cymysgedd o sgiliau yn ddigonol, ond weithiau roedd absenoldebau sydyn tymor byr pan na ellid dod o hyd i staff ychwanegol. Er bod trosiant staff yn isel, roedd rhai staff yn barod i ymddeol yn fuan, ac roedd tri gweithiwr cymorth gofal iechyd ar absenoldeb salwch tymor hir. Roedd hefyd o dan bedair swydd wag nyrsys cofrestredig cyfwerth ag amser llawn. Roedd y swyddi gwag wedi'u hysbysebu ac roedd rhai swyddi ar y rhestr fer.

Roedd rheolwr y ward yn canmol y cymorth gan eu rheolwr. Dywedodd rheolwr y ward wrthym hefyd fod polisi drws agored gydag arfarniadau rheolaidd trwy gydol y flwyddyn. Roedd rheolwr y ward wedi bod yn ei swydd ers mis Ionawr 2021 a dywedodd ei fod yn gweithio ar y ward yn ôl y gofyn. Gwnaethom hefyd arsylwi hyn yn ystod ein hymweliad.

### *Hyfforddiant a datblygiad*

Ar hyn o bryd, roedd hyfforddiant ar-lein yn bennaf, ac roedd hyfforddwr iechyd meddwl mewnol ar gael. Gofynnwyd cwestiynau yn yr arolwg staff yn ymwneud â hyfforddiant. Roedd yr ymatebion fel a ganlyn:

- Dywedodd yr holl staff eu bod wedi derbyn hyfforddiant mewn lechyd a Diogelwch, Diogelwch ac Ymwybyddiaeth Tân, a Diogelu
- Dywedodd saith o'r wyth ymatebydd eu bod wedi derbyn hyfforddiant ar sut i reoli heintiau
- Roedd chwech wedi derbyn hyfforddiant yn y Ddeddf Galluedd Meddylol / Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid
- Dywedodd pump eu bod wedi derbyn hyfforddiant mewn dementia/deliriwm
- Dywedodd pump eu bod wedi derbyn hyfforddiant arall yn ymwneud â gofal arbenigol
- Dywedodd tri eu bod wedi derbyn hyfforddiant mewn uwch gynnal bywyd.

O'r saith a atebodd y cwestiwn, dywedodd yr holl ymatebwyr fod hyfforddiant yn eu helpu i wneud eu gwaith yn fwy effeithiol, o leiaf ar rai achlysuron. Dywedon nhw hefyd fod hyfforddiant, o leiaf ar rai achlysuron, yn eu helpu i gael y wybodaeth ddiweddaraf am ofynion proffesiynol. Dywedodd chwech o'r saith

aelod o staff a atebodd y cwestiwn, fod hyfforddi bob amser, neu fel arfer, yn eu helpu i ddarparu profiad gwell i gleifion.

Dangosodd y wybodaeth ar y cofnod staff electronig mai dim ond 18 (o'r 39 aelod o staff) oedd wedi cwblhau dros 80 y cant o'u hyfforddiant gorfodol. Dywedodd rheolwr y ward fod cynllun i gynyddu'r gyfradd gydymffurfio hon yn y dyfodol agos, a bod nifer o gyrsiau wyneb yn wyneb wedi'u canslo oherwydd COVID-19. Roedd gan reolwr y ward fynediad i gofnod staff electronig er mwyn sefydlu pa hyfforddiant yr oedd angen i staff ei gwblhau. Fodd bynnag, ni chynhaliwyd matrices hyfforddi er mwyn gweld yn fras gydymffurfiaid pob aelod o staff yn erbyn y gwahanol feysydd hyfforddiant yr oedd angen eu cwblhau. Dylai'r bwrdd iechyd ystyried cynnal matrices hyfforddi ar gyfer yr holl staff ar y ward, sy'n dangos, ar yr olwg gyntaf, pwy sydd wedi derbyn yr hyfforddiant diweddaraf, a phwy sydd angen diweddarau eu hyfforddiant.

Gwnaethom wirio sampl o bum cofnod hyfforddi staff ar y cofnod staff electronig, a nodwyd nad oedd yr un o'r pum aelod o staff wedi cwblhau hyfforddiant ymwybyddiaeth dementia, ac mai dim ond un o'r pump oedd â'r hyfforddiant ddiweddaraf mewn cynnal bywyd, canolradd lefel dau. Yn ogystal â hyn, ni ddangosodd y cofnodion fod unrhyw un o'r pump wedi cwblhau'r hyfforddiant sepsis. Roedd angen hyfforddiant ymwybyddiaeth dementia ar gyfer staff a oedd â chysylltiad uniongyrchol â chleifion (gan gynnwys staff gweinyddol ac ategol, yn ogystal â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol).

O ran y broses arfarnu, roedd yr ymatebion i'r holiadur yn cynnwys y canlynol:

- Dywedodd pedwar ymatebydd eu bod wedi cael adolygiad neu arfarniad blynyddol o fewn y 12 mis diwethaf
- Dywedodd tri eu bod wedi cael goruchwyliaeth glinigol yn ystod y 12 mis diwethaf
- Dywedodd tri y nodwyd eu hanghenion dysgu neu eu hanghenion datblygu yn eu hadolygiad arfarnu perfformiad a datblygu
- Dywedodd pedwar fod eu rheolwr yn eu cefnogi i dderbyn hyfforddiant neu i ddatblygu
- O'r pedwar a atebodd y pwynt blaenorol, dywedodd dau eu bod yn derbyn mentoriaeth neu diwtoriaeth briodol ar ddechrau eu rôl. Dywedodd y ddau ei fod am gyfnod digon hir.

Dywedodd rheolwr y ward fod saith aelod o staff yn hwyr yn cael eu harfarnu ac y bydd y rhain yn cael eu cwblhau cyn gynted â phosibl

## Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:

- Cwblheir arfarniadau ar gyfer yr holl staff mewn modd amserol.
- Mae staff yn cwblhau eu hyfforddiant gorfodol mewn modd amserol.
- Rhoddir proses ar waith i sicrhau bod arfarniadau a hyfforddiant gorfodol yn cael eu cwblhau mewn modd amserol.

## Llesiant

Dywedwyd wrthym fod gwasanaeth llesiant yn y bwrdd iechyd, gyda gwybodaeth berthnasol ar yr hysbysfwrdd yn ystafell fwyta'r staff. Roedd cyfres o gwestiynau yn yr arolwg staff yn ymwneud â llesiant, roedd yr ymatebion fel a ganlyn:

- Cytunodd pedwar nad oedd eu swydd yn niweidiol i'w hiechyd, ond roedd dau yn anghytuno
- Cytunodd pedwar fod eu rheolwr uniongyrchol wedi cymryd diddordeb cadarnhaol yn eu hiechyd a'u llesiant, ond roedd tri yn anghytuno
- Dywedodd pedwar ymatebydd fod eu sefydliad wedi cymryd camau cadarnhaol ar iechyd a llesiant
- Dywedodd tri eu bod yn cael cynnig cymorth llawn wrth ddelio â sefyllfaoedd heriol, ac roedd un yn anghytuno
- Cytunodd yr wyth ymatebydd eu bod yn ymwybodol o'r cymorth iechyd galwedigaethol sydd ar gael
- Cytunodd pum ymatebydd fod eu patrwm gwaith cyfredol yn caniatáu cydbwysedd da rhwng bywyd personol a gwaith, ond roedd tri yn anghytuno (dau yn anghytuno'n gryf).

Roedd sylwadau staff yn cynnwys y canlynol:

*“Nid oes gennym batrwm gwaith, ac mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd i gynllunio ymlaen llaw. Nid oes digon o amser i ffwrdd rhwng shiffiau.”*



## Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod mesurau yn cael eu rhoi ar waith i wella llesiant staff, yng ngoleuni rhai o'r ymatebion llai cadarnhaol i'r holiadur.

### *Staffio*

Dywedwyd wrthym fod Offeryn Cymru Gyfan yn cael ei ddefnyddio i sicrhau bod y lefelau staffio yn cwrdd â gofynion sylfaenol Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru)<sup>19</sup>. Y lefelau staffio fel arfer oedd dau aelod o staff cymwys yn gweithio yn ystod y dydd ac yn ystod y nos, a phedwar gweithiwr cymorth gofal iechyd yn ystod y dydd ac yn ystod y nos. Cyfrifwyd hyn gan ddefnyddio'r rota ar ddyletswydd electronig, ac yna rhoddwyd argraffiad i staff er mwyn sicrhau eu bod ar gael i weithio'r shifftiau. Dywedwyd wrthym fod cymorth gwell ar gael lle roedd aciwtedd cleifion yn uwch, gan ddefnyddio cymhwysiad ar-lein o'r enw 'shift finder'. O adolygu sampl o rotâu am bythefnos, gwnaethom nodi bod digon o staff wedi'u dyrannu i bob shifft. Ar ddiwrnod ein hymweliad dywedwyd wrthym nad oedd un aelod o staff wedi mynychu'r diwrnod hwnnw, ond roedd un aelod o staff a oedd ar y rota i gwblhau gwaith anghlinigol, a allai gyflenwi fel y bo angen.

Er bod y lefel staffio yn cyflawni'r meini prawf ar gyfer lefelau nyrsio yng Nghymru, mae'r staff yn nodi nad oedd y rhain yn adlewyrchu aciwtedd y cleifion yn gywir. Mynegodd staff y gwnaethom siarad â nhw bryderon ynghylch staffio ar y ward; nododd un bod 'problemau go iawn'. Roedd y problemau hyn yn cynnwys y canlynol:

- Cadw staff
- Nid oedd shifftiau bob amser yn cael eu llenwi, er gwaethaf ymdrechion i ddod o hyd i staff banc neu staff asiantaeth
- Y gymysgedd o staff cymwys ac anghymwys yn cael eu llenwi, gweithwyr cymorth gofal iechyd ar ddyletswydd yn bennaf erbyn hyn

---

<sup>19</sup>Daeth Deddf Lefelau Staffio Nyrsio (Cymru) 2016 yn gyfraith ym mis Mawrth 2016, ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i gyrrff gwasanaethau iechyd ystyried darparu lefelau staff nyrsio priodol. Mae hyn er mwyn sicrhau bod gan eu nyrsys yr amser i ddarparu'r gofal gorau posibl i gleifion.

- Nid oedd staff yn teimlo y gallent ddarparu'r lefel o ofal yr hoffent ei darparu, oherwydd pwysau amser o ganlyniad i staffio
- Mae staff yn cael anhawster i drefnu amser i ffwrdd o'r gwaith, hyd yn oed ar gyfer apwyntiadau personol dilys, oherwydd pwysau staffio
- Anodd cadw ar ben hyfforddiant a gwaith papur oherwydd pwysau amser.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod lefelau staffio ar y ward yn ddigonol i sicrhau bod staff yn gallu cyflawni eu rôl o ofalu am y cleifion ac yn gallu trefnu amser i ffwrdd o'r gwaith, a chwblhau eu hyfforddiant gorfodol.

## 4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain yn cael eu manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a uwchgyfeiriwyd ac a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynglŷn â diogelwch claf lle rydym yn nodi bod angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn ein hysbysu o'r camau brys y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Datgan yn glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws meysydd eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

## 5. Sut rydym yn arolygu ysbytai

Mae amrywiaeth o ddulliau ar gael inni pan fyddwn yn arolygu ysbytai'r GIG, gan gynnwys:

- Arolygiad un ward trylwyr: rydym yn cynnal adolygiad trylwyr a manwl o un ward
- Arolygiad aml-ward: rydym yn ymweld â nifer o wardiau ac adrannau ar un safle ysbyty i nodi materion neu themâu a allai fod yn berthnasol i'r ysbyty cyfan
- Arolygiad aml-ysbyty: rydym yn ymweld â nifer o ysbytai yn yr un bwrdd iechyd i asesu llywodraethiant a darpariaeth gwasanaethau cyfan.

Mae arolygiadau o ysbytai yn ddirybudd fel rheol. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd gan fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau yn y ffordd y maent yn gweithredu fel rheol. Nid yw'r gwasanaeth yn derbyn unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Rydym yn gwirio sut y mae ysbytai'n bodloni [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#). Rydym yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill lle bo'n berthnasol.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg o'r safonau gofal o fewn ysbytai.

Ceir gwybodaeth bellach am [sut mae AGIC yn arolygu'r GIG](#) ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a uwchgyfeiriwyd yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

<b>Pryderon uniongyrchol a nodwyd</b>	<b>Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion</b>	<b>Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder</b>	<b>Sut cafodd y pryder ei ddatrys</b>
Ni nodwyd unrhyw bryderon dybryd yn ystod yr arolygiad hwn.			

## Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

**Ysbyty:** Ysbyty Cymunedol Tregaron

**Dyddiadau'r arolygiad: 7 ac 8 Medi 2021**

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y maent yn eu cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Dim materion sicrwydd dybryd				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (llythrennau bras):**

**Swydd:**

**Dyddiad:**

## Atodiad C – Cynllun gwella

### Ysbyty: Ysbyty Cymunedol Tregaron

### Dyddiadau'r arolygiad: 7 ac 8 Medi 2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y maen nhw'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<b>Ansawdd profiad y claf</b>				
<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Yn ogystal â chael cynnig cadachau dwylo, rhaid i staff sicrhau bod cleifion yn glanhau eu dwylo cyn bwyta eu prydau bwyd ac ar ôl bwyta, ac ar ôl defnyddio'r toiledau</li> </ul>	4.1 Gofal ag urddas	<p>Ychwanegwyd at yr agenda ar gyfer trafodaeth yn y cyfarfod Datblygu Clinigol Staff Nyrsio nesaf a drefnwyd ar gyfer 10 Tachwedd 2021, a'r cyfarfod staff cyffredinol ar 24 Tachwedd. Bydd nodiadau cyfarfod yn cael eu dosbarthu i'r holl staff er mwyn trafod tystiolaeth.</p> <p>Gweithredu archwiliadau arsylwadol ar y ward i'w monitro fel rhan o'r rhaglen fisol.</p> <p>Mae'r Tîm Atal a Rheoli Heintiau hefyd yn cynnal Archwiliadau Dangosydd Chwarterol ac o archwiliad a gynhaliwyd ar 04/11/21, roedd cydymffurfiad uchel</p>	<p>Arweinydd y tîm</p> <p>Nyrs Arwain Clinigol</p> <p>Tîm Atal a Rheoli Heintiau</p>	<p>30 Tachwedd 2021</p> <p>31 Rhagfyr 2021</p> <p>Cwblhawyd</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<ul style="list-style-type: none"> <li>Dylid cynnal preifatrwydd cleifion trwy siarad â'r cleifion eu hunain am eu cyflwr, neu faterion preifat, pan na all cleifion neu ofalwyr eraill eu clywed</li> </ul>		<p>(93%) o'r cleifion yn defnyddio cadachau dwylo cyn prydau bwyd.</p> <p>Gwneir pob ymdrech i symud cleifion i ardal breifat ar gyfer trafodaethau personol; fodd bynnag, mae adegau pan nad yw hyn bob amser yn bosibl oherwydd cyflwr meddygol claf. Yn yr amgylchiadau hyn, atgoffwyd staff o bwysigrwydd sicrhau y gwneir pob ymdrech i atal sgysiau rhag cael eu clywed. Llenni i'w tynnu a defnyddio cerddoriaeth dawel neu sŵn teledu cefndirol i atal cleifion eraill rhag clywed materion preifat. Ychwanegir fel eitem agenda yng nghyfarfodydd 10 Tachwedd a 24 Tachwedd i atgoffa staff o'r gofyniad hwn, a bydd y nodiadau ar gael i'r holl staff eu hadolygu</p>		
<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Gwneir ymdrechion pellach i arddangos yr holl wybodaeth a</li> </ul>	4.2 Gwybodaeth ar gyfer cleifion	Mae mesurau atal a rheoli heintiau ar waith ac mae adolygiadau ar y gweill ynghylch pryd y gellir ail-ddosbarthu taflenni papur, er na nodwyd unrhyw amserlenni i nodi pryd y bydd hyn yn cael ei gwblhau. Mae'r arweinydd tîm yn	Arweinydd y tîm	Cwblhawyd



Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>oedd ar gael i gleifion a gofalwyr cyn COVID-19</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Gosod bwrdd pwy yw pwy ar y ward.</li> </ul>		<p>Nhregaron mewn cysylltiad rheolaidd â'r Tîm Atal a Rheoli Heintiau. Yn y cyfamser, mae gwybodaeth yn cael ei hargraffu yn ôl yr angen yn unigol a'i rhoi'n uniongyrchol i'r claf neu berthynas.</p> <p>Mae'r Bwrdd Iechyd yn y broses o weithredu byrddau pwy yw pwy ar gyfer yr holl ardaloedd cleifion. Bydd bwrdd pwy yw pwy yn cael ei arddangos ar y ward gan y Bwrdd Iechyd.</p>	Arweinydd y tîm	Chwefror 2022
<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod dogfennaeth cleifion wedi'i chwblhau'n llawn gan gynnwys trosglwyddo gofal a chynllunio i ryddhau.</p> <p>Rhaid i'r bwrdd iechyd ymchwilio i ffyrdd o ganiatáu i gleifion ailddedfnyddio'r ystafell ddydd ar gyfer amrywiol weithgareddau i'w hysgogi tra byddant yn yr ysbyty.</p>	6.1 Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth	<p>Ychwanegwyd at yr agenda ar gyfer trafodaeth yn y cyfarfod Datblygu Clinigol nesaf a drefnir ar gyfer 10 Tachwedd 2021. Bydd nodiadau'r cyfarfod yn cael eu dosbarthu i'r holl staff i ddangos tystiolaeth o drafodaeth.</p> <p>Archwiliadau dogfennau a gynhelir gan uwch staff; ychwanegir hyn at yr archwiliad</p>	Arweinydd y tîm  Nyrs Clinigol Arwain	10 Tachwedd 2021  Wedi'i gwblhau ac yn ddibynnol ar gyngor rheoli



Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<b>Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol</b>				
<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Angen diogelu pob drws i'r ward, er mwyn atal cleifion rhag gadael y ward ar eu pen eu hunain</li> <li>• Rhoddir adborth i staff, ar ffurf gwersi a ddysgwyd, ar ganlyniadau unrhyw ymchwiliadau sy'n ymwneud â gwallau, digwyddiadau y bu ond y dim iddynt ddigwydd, neu ddigwyddiadau eraill</li> <li>• Bod staff â chymwysterau addas ar gael i reoli'r corffdy yn yr ysbyty, a bod y gwasanaeth yn dilyn gweithdrefnau'r bwrdd iechyd.</li> </ul>	<p>2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch</p>	<p>Gellir sicrhau pob drws ar hyn o bryd ac mae mynediad i'r safle yn cael ei reoli'n gaeth iawn oherwydd y rhagofalon COVID-19. Yn ogystal â hyn, mae unrhyw glaf y nodwyd nad oes ganddynt alluedd yn destun asesiad risg a dyfeisiwyd cynllun gofal unigol i sicrhau bod unrhyw risg o niwed o adael y ward yn cael ei lliniaru, e.e. trwy gymorth gwell i gleifion.</p> <p>Darperir adborth penodol manwl o ddigwyddiad Datix trwy'r system DATIX Cymru Gyfan i'r unigolyn a gododd y digwyddiad. Cyflwynir adborth cyffredinol ynghylch gwersi a ddysgwyd ym mhob cyfarfod staff fel eitem sefydlog ar yr agenda</p> <p>Mae staff â chymwysterau addas yn gweithio yn Nhregaron gyda chymorth gan borthor 24 awr wedi'i hyfforddi o Ysbyty Cyffredinol Bronglais ar gyfer</p>	<p>Arweinydd y tîm</p> <p>Nyrs Arwain Clinigol</p> <p>Prif Borthor</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd hefyd ymchwilio i ffyrdd amgen o storio cyfarpar diogelu personol i'w ddefnyddio gan staff yn yr ardaloedd cleifion.</p>		<p>unrhyw alwadau y tu allan i oriau pe bai angen hyn.</p> <p>Mae adolygiadau ac archwiliadau Atal a Rheoli Heintiau gan nyrs glinigol arbenigol yn parhau bob mis ar y ward, gyda phob cam yn cael ei ddilyn i sicrhau cydymffurfiad parhaus. Mae ffedogau yn cael eu storio mewn cynwysyddion â chaead er mwyn lleihau'r posibilrwydd o heintiad.</p>	<p>Swyddog Caffael</p> <p>Arweinydd Atal a Rheoli Heintiau</p>	<p>Cwblhawyd</p>
<p>Mae angen i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Atgoffir staff o bwysigrwydd hylendid dwylo a golchi eu dwylo yn ôl yr angen ar ôl ymyrraeth pob claf a chyn gwisgo eu menig</li> <li>• Mae tystiolaeth o hyfforddiant sepsis ar y cofnod staff electronig,</li> </ul>	<p>2.4 Atal a rheoli heintiau a dadheintio</p>	<p>Mae arwyddion wedi'u lamineiddio yn cael eu harddangos ar draws y safle mewn ardaloedd allweddol i atgoffa staff o'r gweithdrefnau gwisgo a thynnu. Cynhaliodd y tîm atal a rheoli heintiau archwiliad arsylwadol ar 04/11/21 a dadheintio hylendid dwylo 100% ar gyfer yr holl staff.</p> <p>Gwriad yn y fan a'r lle a gwblhawyd gan staff y tîm atal a rheoli heintiau ar gyfer gwisgo a thynnu cyfarpar diogelu</p>	<p>Arweinydd y tîm</p> <p>Nyrs Arwain Clinigol</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>ac mae'r holl staff yn derbyn hyfforddiant sepsis perthnasol</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Cwblheir data aciwtedd wythnosol yn llawn</li> <li>Cwblheir yr holl wiriadau nyrsio dyddiol yn llawn.</li> </ul>		<p>personol ar 04/11/21 a sesiwn addysgu wedi'i chwblhau.</p> <p>Mae elfen e-ddysgu hyfforddiant Techneg Gwrth-gyffwrdd Aseptig wedi'i hymgorffori yn y cofnod staff electronig, ond nid yw'r hyfforddiant sepsis, ALERT, wedi'i gofnodi yno. Mae staff bellach yn cael eu rhestru ar ddiwrnodau astudio hyfforddiant ALERT pan fyddant ar gael, a chaiff staff eu rhyddhau i fynychu'r hyfforddiant.</p> <p>Archwilir y gweithgaredd hwn i'w gwblhau, ac mae cydymffurfiad yn parhau i fod yn 100%.</p> <p>Bydd hyn yn cael ei archwilio fel rhan o wiriadau nyrsio i sicrhau eu bod yn cael eu cwblhau</p> <p>Ychwanegwyd at yr agenda ar gyfer trafodaeth yn y cyfarfod Datblygu Clinigol Staff Nyrsio nesaf a drefnwyd ar gyfer 10 Tachwedd 2021, a'r cyfarfod staff cyffredinol ar 24 Tachwedd. Bydd</p>	<p>Nyrs Arwain Clinigol</p> <p>Nyrs Arwain Clinigol</p> <p>Nyrs Arwain Clinigol</p>	<p>Mawrth 2022</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Tachwedd 2021</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		nodiadau'n cael eu dosbarthu ar ôl y cyfarfod i'r holl staff i gael tystiolaeth o drafodaeth.		
<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae staff yn defnyddio hambyrddau coch ac mae'r hambyrddau'n cael eu defnyddio'n briodol</li> <li>Mae statws y claf mewn bwrdd cipolwg yn cynnwys gwybodaeth lawn am ofynion maeth cleifion</li> <li>Mae'r siartiau maeth cleifion wedi'u cwblhau'n llawn ar ôl pob pryd bwyd.</li> </ul>	2.5 Maethiad a Hydradiad	<p>Ychwanegwyd at yr agenda ar gyfer trafodaeth yn y cyfarfod Datblygu Clinigol Staff Nyrsio nesaf a drefnwyd ar gyfer 10 Tachwedd 2021, a'r cyfarfod staff cyffredinol ar 24 Tachwedd. Bydd nodiadau'n cael eu dosbarthu ar ôl y cyfarfod i'r holl staff er mwyn trafod tystiolaeth.</p> <p>Mae Deietegydd Cymunedol a Nyrs Datblygu Ymarfer Clinigol yn gweithio i gryfhau hyn, ynghyd â Hyrwyddwr Maeth a Hydradu y ward.</p> <p>Ychwanegu at yr agenda ar gyfer trafodaeth yn y cyfarfod Datblygu Clinigol Staff Nyrsio nesaf a drefnwyd ar gyfer 10 Tachwedd 2021, a'r cyfarfod staff cyffredinol ar 24 Tachwedd.</p>	<p>Arweinydd y tîm Nyrs Arwain Clinigol</p> <p>Arweinydd y tîm</p> <p>Arweinydd y tîm</p>	<p>30 Tachwedd 2021</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>30 Tachwedd 2021</p>

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Gweithredu archwiliadau arsylwadol a hapwiriadau ar y ward i'w monitro fel rhan o'r rhaglen fisol		
<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Dylid gosod thermomedr wal yn yr ystafell feddyginiaethau a chynnal gwiriadau i'r tymheredd a'u cofnodi bob dydd</li> <li>Rhaid rheoli meddyginiaeth yn gywir pan gaiff ei hagor, gan gynnwys nodi pwy sydd wedi defnyddio'r feddyginiaeth.</li> </ul>	2.6 Rheoli Meddyginiaethau	<p>Thermomedr wal bellach ar waith a darlleniadau dyddiol yn cael eu cofnodi</p> <p>Ychwanegir hyn at archwiliad misol o reoli meddyginiaethau. Ychwanegwyd at yr agenda ar gyfer trafodaeth yn y cyfarfod Datblygu Clinigol Staff Nyrsio nesaf a drefnwyd ar gyfer 10 Tachwedd 2021, a'r cyfarfod staff cyffredinol ar 24 Tachwedd, gyda nodiadau ar gael i'r holl staff.</p>	Arweinydd y tîm  Nyrs Clinigol Arwain	Cwblhawyd  30 Tachwedd 2021
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y llifddorau naill ai wedi'u cloi, neu bod unrhyw gemegau neu eitemau a allai achosi niwed pe baent yn cael eu llyncu yn cael eu symud a'u cadw'n ddiogel mewn rhannau eraill o'r ysbyty.	3.1 Gofal diogel a chlinigol effeithiol	Cafwyd gwared ar yr eitemau. Cydweithwyr y Gwasanaethau Gwesty yn ymwybodol o ba eitemau y mae angen eu storio mewn cwpwrdd dan glo.	Nyrs Clinigol Arwain  Arweinydd Ystadau	Cwblhawyd

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<b>Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth</b>				
<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y prosesau canlynol ar waith:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Caniatáu i unrhyw aelod o staff roi gwybod am unrhyw faterion sy'n peri pryder yn fewnol, yn ogystal â sicrhau bod unrhyw bryderon a godir yn destun ymchwiliad ac ymateb priodol</li> <li>• Sicrhau bod staff yn cael eu trin yn deg ac yn gyfartal ac na fydd unrhyw achosion o wahaniaethu yn cael eu goddef, ac y bydd camau priodol yn cael eu cymryd</li> </ul>	Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd	<p>Mae polisiâu'r Bwrdd Iechyd yn cael eu cyfleu a'u dilyn ar y ward gan reolwyr Nyrsio. Mae'r system Datix yn cael ei defnyddio i adrodd pob digwyddiad, yn ogystal â'r Polisi Rhyddid i Siarad yn Ddiogel, pe bai angen iddynt godi unrhyw bryderon eraill. Mae'r holl staff wedi cael gwybod am werthoedd y Bwrdd Iechyd, a bod unrhyw achosion o wahaniaethu yn cael eu trin yn unol â pholisi'r Bwrdd Iechyd. Ychwanegwyd at yr agenda ar gyfer trafodaeth yn y cyfarfod staff nesaf ar 24 Tachwedd 2021 a bydd nodiadau cyfarfod yn cael eu rhyddhau i drafod tystiolaeth.</p> <p>Mae polisiâu a gweithdrefnau o fewn y Bwrdd Iechyd i gefnogi staff i gael eu trin yn gyfartal ac yn deg. Mae'r Polisi Rhyddid i Siarad yn Ddiogel wedi'i gyflwyno yn y Bwrdd Iechyd, a bydd hyn</p>	<p>Arweinydd y tîm</p> <p>Nyrs Clinigol Arwain</p>	<p>30 Tachwedd 2021</p> <p>30 Tachwedd 2021</p>



Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		yn cael ei ailadrodd i'r staff yng nghyfarfodydd Tachwedd 2021.		
<p>Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Cwblheir arfarniadau ar gyfer yr holl staff mewn modd amserol.</li> <li>Mae staff yn cwblhau eu hyfforddiant gorfodol mewn modd amserol.</li> <li>Rhoddir proses ar waith i sicrhau bod arfarniadau a hyfforddiant gorfodol yn cael eu cwblhau mewn modd amserol.</li> </ul>	7.1 Gweithlu	<p>Taflen cydymffurfiad cipolwg fisol yn cael ei dyfeisio ar gyfer cyfeirio ac archwilio ar y ward, gan weithredu yn unol â hynny.</p> <p>Bydd hyn yn galluogi monitro haws i sicrhau cydymffurfiad 100%.</p> <p>Mae staff yn ymwybodol o'r gofyniad i gwblhau hyfforddiant gorfodol ac fe'u cefnogir i wneud hynny</p> <p>Bydd taflen gydymffurfio fisol yn cefnogi'r monitro</p>	<p>Arweinydd y tîm</p> <p>Nyrs Clinigol Arwain</p>	<p>31 Rhagfyr 2021</p> <p>Cwblhawyd</p>
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod mesurau yn cael eu rhoi ar waith i wella llesiant staff, yng ngoleuni rhai o'r ymatebion llai cadarnhaol i'r holiadur.	7.1 Gweithlu	Gwasanaethau cymorth i staff wedi'u harddangos yn glir yn yr ardal staff, ac maent i'w trafod yn y cyfarfod staff nesaf. Sesiynau llesiant pellach yn cael eu trefnu ar hyn o bryd yn y ward.	<p>Arweinydd y tîm</p> <p>Nyrs Clinigol Arwain</p>	30 Medi 2022
Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod lefelau staffio ar y ward yn ddigonol i sicrhau bod staff yn gallu	7.1 Gweithlu	Mae lefelau staffio wedi'u sefydlu a'u cytuno gyda'r Cyfarwyddwr nyrsio ac	Arweinydd y tîm	Cwblhawyd

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
cyflawni eu rôl o ofalu am y cleifion ac yn gallu trefnu amser i ffwrdd o'r gwaith, a chwblhau eu hyfforddiant gorfodol.		maent yn parhau i gael eu hadolygu bob mis. Yn ogystal â hyn, mae staffio yn cael eu monitro ar bob shifft ac mae unrhyw ddiffygion a reolir trwy'r staff banc, staff asiantaeth neu staff a adleolwyd yn ôl gofynion aciwtedd cleifion.	Nyrs Arwain Clinigol	

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (llythrennau bras):** Tracey Evans

**Swydd:** Pennaeth Nyrsio Cymunedol Ceredigion

**Dyddiad:** 2/11/2021